# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 320

Mehefin 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Gwobrau i Licyris Olsorts

Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod digon prysur i'r cwmni drama lleol Licyris Olsorts wrth iddynt baratoi dwy ddrama ar gyfer cystadlu yn y gwyliau drama a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama 'Confusions' gan Alan Ayckbourn sef 'Y Fam Ddelw' oedd un gyda Catrin Jenkins, Gwynant Evans, Janet Roberts a Sion Pennant yn y cast. Yr ail ddrama fu'n cystadlu oedd cynhyrchiad o 'Apocalyps', drama wreiddiol o waith y dramodydd Emyr Edwards gyda Rhian Evans a Sion Glyn Saunders Jones yn y cast. Mae dyled y cwmni yn fawr i ymroddiad a gwaith caled y cynhyrchydd Sion Pennant, Bont-goch am roi o'i amser i gynhyrchu'r dramâu.





Bu'r ddwy ddrama yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ym mis Ebrill ac yna yng Ngŵyl Corwen ddechrau Mai ble cipiwyd y wobr gyntaf gan 'Apocalyps'. Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Glyn Saunders Jones am gipio tlws yr actor gorau dan ddeg ar hugain yng Nghorwen a hynny am y trydydd tro. Cofiwch fod cyfle i weld y ddwy ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala ym mis Awst pan fydd yr 'Apocalyps' yn cystadlu yng nghystadleuaeth perfformio drama fer a'r 'Fam Ddelw' yn perfformio yn Theatr Fach y Maes. Dymuniadau gorau a phob lwc i'r cwmni.

# Cymdeithas yn anrhydeddu bridiwr Gwartheg Duon Cymreig



Ar Fai 9fed sefydlwyd Trefor Jones, Cwmcae, Llandre, fel Llywydd newydd Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig yn eu cyfarfod blynyddol yng Ngwesty'r Bulkeley, Beaumaris.

Yn y llun gwelir y cyn-Lywydd, Richard Hughes, Glanrafon, Bodorgan, yn cyflwyno Tsaen y Llywydd i Trefor Jones fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth hir, ymroddiad a gwaith caled a roddodd i'r brid ac i'r Gymdeithas.

Symudodd Trefor Jones a'i wraig Eirwen i Cwmcae ym 1961 a sefydlu diadell Cwmcae o warthog duon pedigri sydd dros 48 o flynyddoedd wedi dod a rhes hir o anrhydeddau iddo. Mae Mr Jones hefyd yn enwog am ei ddidadell o ddefaid Kerry Hill.

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf dydd Sadwrn 8 Mai 2010 yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth.

yTincer-Mehefin09.indd 1 16/6/09 11:05:21

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 320 | Mehefin 2009



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynys Wen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEDI 3 A MEDI 4 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEDI 17

**MEHEFIN 18** Nos Iau Cyfarfod PACT Plwyf Trefeurig yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**MEHEFIN 19** Nos Wener Ffrindiau Cartref Tregerddan - Barbeciw yn y Cartref am 6.30.

**MEHEFIN 19** Nos Wener Cinio ac ocsiwn ffasiwn yn Llety Parc, Aberystwyth am 7.30 Cinio tri chwrs, ocsiwn o ddillad ac eiddo gan enwogion o Gymru ac adolniant gan Bryn Fôn a'r band. Elw'r noson at Apêl Aberystwyth a Phenparcau Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion 2010

**MEHEFIN 19** Nos Wener Rhian Lois Evans (enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel 2008) a buddugwyr Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bae Caerdydd 2009 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7.00 Tocynnau £5 (oedolion) £3 (plant) Ar gael 01239 652 150

**MEHEFIN 20** Pnawn Sadwrn Sleeping furiously yn Sinema Canolfan y Celfyddydau. Sesiwn gwestiwn ac ateb gyda'r cyfarwyddwr Gideon Koppel am 5.45

**MEHEFIN 27** Nos Sadwrn Dan y Wenallt –drama Dylan Thomas (cyfieithiad T. James Jones) wedi ei gosod i gerdd dant yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau am 7.30 Tocynnau £12 (£10) £6 623232

**GORFFENNAF 1** Nos Fercher Cyfarfod PACT Bow Sreet a Llandre yn Neuadd Rhydypennau am 7.00

**GORFFENNAF 3** Nos Wener Ocsiwn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch am 8.00 dan nawdd Ysgol Penrhyn-coch – cyfle i weld yr eitemau o 6-8). Elw i'r ysgol ac Apêl Trefeurig Cronfa Eisteddfod yr Urdd 2010 Manylion pellach Ysgol Penrhyn-coch Ffôn 828 566

**GORFFENNAF 10** Nos Wener Ras Peli - Rhiw Tanffordd dan Nawdd Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.30 pm. Croeso cynnes

**GORFFENNAF 11** Prynhawn Sadwrn Te mefus a stondinau Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch rhwng 3.00-5.00

**GORFFENNAF 14** Nos Fawrth Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30

**GORFFENNAF 14** Nos Fawrth Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30

**GORFFENNAF 15** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30pm. Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010.

**GORFFENNAF 18** Prynhawn Sadwrn Hwyl yr haf ar Gae Chwarae Pen-bont Rhydybeddau yn cychwyn am 5.00. Dewch bawb i ymuno yn yr hwyl a'r sbri!

**GORFFENNAF 19** Prynhawn Sul Te mefus a hufen, er budd Ambiwlans Awyr Cymru yn Hen Ysgol Trefeurig rhwng 3.00-5.00

**GORFFENNAF 24-26** Dyddiau Gwener i Sul Gŵyl Sgwâr, y Borth

**GORFFENNAF 25** Bore Sadwrn Bore Coffi Clwb y Deillion a Rhannol Ddall, yng nghanolfan Coedlan y Parc Aberystwyth o 10 30 – 12 30 o'r gloch.

**AWST 15** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch Llywyddion: Mr a Mrs Glyn Rowlands, Fronheulog

**AWST 19** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010.

**MEDI 5** Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau

**MEDI 16** Nos Fercher. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010. Croeso cynnes i bawb.

**MEDI 16** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Hafina Clwyd yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**MEDI 18** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch.

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Annwyl Olygydd a darllenwyr

**TAITH GERDDED GŴYL CYHOEDDI EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU CEREDIGION 2010**

Drwy golofnau'r papurau bro carem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n cefnogi'r teithiau cerdded drwy ogledd a de'r Sir dros y pedwar diwrnod ddiwedd fis Ebrill. Bu cyfraniad y Bnr Rees Thomas yn amhrisiadwy i sicrhau gwasanaeth nifer o gerddwyr profiadol, nifer ohonynt yn aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd, i arwain y naw taith a hwythau oedd asgwrn cefn y trefniadau a wnaed.

Gwerthfawrogwyd cefnogaeth a brwdfrydedd y cyfanswm o dros 50 o gerddwyr - rhai ohonynt wedi cerdded tri diwrnod a rhai y pedwar diwrnod! Cefnogwyr gwirfoddol pob un yn rhoi o'u hamser i gefnogi'r Urdd a'r aelodau presennol gan gofio'u profiad pleserus hwythau o fod yn aelodau o'r mudiad yn eu hieuenctid. Tra mwynhawyd y teithiau fe wefreiddiwyd pawb gan olygfeydd hyfryd, yn enwedig ar Lwybr yr Arfordir a gwenodd y tywydd hefyd.

Mawr oedd gwerthfawrogiad y cerddwyr am y croeso a gafwyd gan ddisgyblion dros 20 o ysgolion ar y daith. Bu'r cerddwyr yng ngwasanaethau boreol, neu'n cael paned mewn sawl ysgol neu gael eu croesawu drwy gân heb sôn am gael cwmni disgyblion nifer o ysgolion ar y daith. Braint oedd yr oll o'r cysylltiadau hyn a chael gweld y brwdfrydedd yn y Jamboris ym Mhontrhydfendigaid a Llangrannog.

Diolch am yr holl ymdrechion ac am y gefnogaeth i hyrwyddo Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a fydd gyda ni yma yng Nheredigion ymhen y flwyddyn.

Yn gywir,

Deian Creunant
Cadeirydd Pwyllgor Gwaith
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU CEREDIGION 2010

Dewi G Hughes
TREFNYDD Y DAITH GERDDED

Annwyl Olygydd,

**ADUNIAD YSGOL BOTWNNOG**

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw eich darllenwyr sydd yn gyn-ddisgyblion Ysgol Botwnnog fy mod yn trefnu Aduniad ar ddydd Iau wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala, sef Awst 6ed, 2009. Mae'r aduniad yma yn agored i gyn-ddisgyblion ac Athrawon o unrhyw flwyddyn.

Mae wedi bod yn arferiad ers nifer o flynyddoedd bellach i gynnal aduniad yr ysgol bob tro bydd y Brifwyl yn y Gogledd. Cynhelir yr aduniad eleni yn Neuadd y Cyfnod sy'n cynnwys bwffe am gost o £13.50 a bydd digon o gyfle i hel atgofion a chyfarfod â hen ffrindiau ysgol.

Disgwylir derbyn pob enw a thâl erbyn Gorffennaf 21ain. Cysylltwch a rhai o'r cyn-ddisgyblion eraill sy'n byw yn eich hardal, byddaf yn falch o glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir

EVAN L. DOBSON
Llygad yr Haul,
Mawnog Fach,
Y Bala,
Gwynedd, LL23 7YY.
Ffôn: 01678 521020

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer.
Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

# Ffynnon Plas Gogerddan

Tra'n mynd efo Elen, y ferch, a'i chi am dro drwy goedwig yn ymyl Plas Gogerddan, daethom ar draws ffynnon a oedd wedi ei llenwi efo dail, brigau a phridd. Felly dyma fynd ati i'w glanhau a gweld bod cerrig wedi eu gosod i ddal tarddiad o ddŵr. Nid yw yn ddofn ac rwyf yn rhyw hanner credu mai ei phwrpas oedd di-sychedu yr helgwn wrth fynd allan i'w hymarfer. Roedd Gogerddan yn enwog iawn am eu cŵn llwynog a'r cŵn a ddefnyddient i fynd ar ôl ysgyfarnogod. Mi fyddai y cŵn ysgyfarnogod allan o waith pe baent ar gael heddiw gan fod rheini wedi mynd yn bethau prin iawn. Cyfeirnod y ffynnon yw NS 243527.
**Erwyd Howells, Capel Madog**



## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Mai 09.**

£25 (Rhif 20) Alwen Fanning, 69 Ger-y-Llan, Penrhyn-coch.
£15 (Rhif 68) Vernon Jones, Gaer Wen, Bow Street.
£10 (Rhif 132) Marjorie Bowyer, 30 Woodland Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Tynnwyd gan y golygydd yn ymarfer Cantre'r Gwaelod nos Sul 17 Mai 2009 .

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street os ydych am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf

## CYSYLLTWCH Â NI

ytincer@googlemail.com

**FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN**

**BBQ**

**yn y Cartref 19.6.09 am 6.30 o'r gloch**

**Croeso cynnes i bawb**

**EGLWYS ST. PEDR, ELERCH**

**GWIN, CAWS A CHÂN 2009**

CÔR CYD ABERYSTWYTH
SIONED & ELIN (Clarinet & Thelyn)

NOS WENER 26 MEHEFIN 2009
7-00 PM

MYNEDIAD: £6-00 / PLANT: £1.50
Croeso i bawb

yTincer-Mehefin09.indd 3 16/6/09 11:05:24

# Y BORTH

## Ffair Elusennau

Diolchir i Scowtiaid Y Borth, a drefnodd Ffair Elusennau'r haf yn y Neuadd Gymunedol, ddydd Llun Gŵyl y Banc, 25 Mai. Denwyd llu o ymwelwyr a phentrefwyr i'r Neuadd, drwy gydol y bore a'r prynhawn cynnar, i fwynhau y gêmau, rafflau, tombola a'r amrywiaeth o stondinau oedd ar gael.

## Clwb Pêl-Droed Y Borth

Aeth wyth mlynedd heibio ers inni weld clwb pêl-droed yn Y Borth. Ar yr adeg honno, er mawr siom i aelodau'r Pwyllgor, doedd dim digon o ddiddordeb gan y chwaraewyr lleol i chwarae dros y pentref ac roedd yn anodd iawn dod o hyd i reolwr i redeg y tîm.

Bellach mae'n bleser gennym adrodd fod Clwb Pêl-droed Borth United wedi ei ail-sefydlu. Trefnodd Peter Fleming noson agored yn Neuadd y Pentref ar nos Fercher 13 Mai 2009 i weld a oedd digon o ddiddordeb i ail-ddechrau clwb lleol. Roedd yn bleser gweld tua 40 o bobl yn y cyfarfod. Roeddent yn llawn brwdfrydedd ac am weld y Clwb yn cael ei ail-sefydlu. Enwebwyd Pwyllgor ar y noson honno a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf Pwyllgor newydd Clwb Pêl-droed Borth United ar y nos Fercher ganlynol sef 20 Mai 2009 pan etholwyd y swyddogion yn ffurfiol.

Mae trefniadau bellach ar y gweill i Glwb Pêl-droed Borth United gael ei dderbyn i ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth. Caiff hyn ei drafod yng Nghyfarfod Blynyddol y Gynghrair yn Aberystwyth ar 11 Mehefin 2009.

Mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn gwneud eu gorau glas i sicrhau y bydd y cae pêl-droed yn barod ar gyfer y tymor newydd. Hefyd, maent wrthi yn codi arian fel y gellir sicrhau bod sefyllfa ariannol y Clwb yn gadarn o'r cychwyn cyntaf. Cawsom gyfraniadau hael iawn gan unigolion a mudiadau yn yr ardal ac rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw. O ystyried y diddordeb a ddangoswyd gan y chwaraewyr yn y pentref, rydym yn gobeithio y bydd modd sefydlu'r tîm yn y dyfodol agos fel y gallwn baratoi ar gyfer y tymor newydd

## Sefydliad y Merched

Jo Jones oedd y Cadeirydd a Lynne Lloyd, Cynghorydd SYM, oedd y wraig wadd yng nghyfarfod y "Penderfyniadau", nos Fercher, 6 Mai, yn y Neuadd Gymunedol. Tywysodd Lynne yr aelodau drwy'r Penderfyniad ar gyfer eleni, fydd yn galw ar y Llywodraeth i ddarparu arian at ymchwil ar wenyn, sydd yn dioddef colledion enfawr ar hyn o bryd ac sydd mor bwysig i'r amgylchfyd.

Mwynhaodd yr aelodau wibdaith fer i Lanrhystud, ddydd Mercher, 20 Mai, lle mae Andy ac Ann Parry wedi treulio'r tair blynedd ddiwethaf yn trwsio'r hen Felin Ganol. Cafwyd croeso cynnes gan Andy ac Ann, a'n tywysodd o gwmpas y felin a'r ardd ac a ddarparodd luniaeth ysgafn, gyda bara a theisennau wedi'u gwneud allan o flawd o'r felin. Ar ddiwedd prynhawn pleserus, cafwyd siawns i brynu blawd wedi'i falu'n arbennig ar ein cyfer. Diolch i Andy ac Ann Parry ac i Doreen Brownbridge a drefnodd yr ymweliad.




## Ras am Fywyd

Llongyfarchiadau i Joy Cook, Freda Darby a Val Harris, i gyd yn aelodau o Glwb Henoed Y Borth, a gododd gannoedd o bunnoedd ar gyfer Ymchwil Cancr, ar ôl cymryd rhan yn y "Ras am Fywyd" yn Aberystwyth ddydd Sul, 17 Mai. Roedd rhaid cerdded neu redeg cwrs pum cilomedr, ac fe ymunwyd â hwy gan blant Ysgol Sul Eglwys Sant Mathew pan gyraeddasant Rodfa Aberystwyth. Er bod Joy yn cerdded gyda chymorth baglau, dyma'r nawfed tro iddi gymryd rhan yn y Ras.

## Clwb yr Henoed

Cadeiriwyd cyfarfod Clwb yr Henoed gan Pamela Gough, ddydd Iau, 21 Mai, yn y Neuadd Gymunedol. Beverly Davies, golygydd y Cambrian News oedd y westai wadd ac fe gafwyd ganddi sgwrs ddiddorol am hanes a rhediad y papur wythnosol a fydd yn 150 oed yn 2010.

Dydd Iau 4 Mehefin, at ddiwrnod heulog o haf, aeth aelodau ar wibdaith i Ddinbych-y-Pysgod. Diolchir i Joy Cook ac i Graham Taylor a drefnodd daith a fwynhawyd gan bawb.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Peidiwch ag anghofio gwibdaith ddirgel y Gymdeithas, ddydd Mercher, 24 Mehefin. Manylion ar gael oddi wrth Mrs Nansi Hayes ar 871 255.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Christine a Stuart Lloyd, Penlon, ar golli mam Christine, sef Violet Eiry Rasmussen a fu farw ar ddydd Iau 28ain Mai. Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb, Rhydargaeau, Caerfyrddin ac yn Amlosgfa Arberth ar ddydd Mercher, 10fed Mehefin

## Ifan Richard Williams, Ton Pentre

Yn ddisymwth ar nos Sul y 31ain o Fai bu farw Ifan Richard Williams ,Ton Pentre y Borth. Brodor o Gaerdydd a Sir Fôn; bu ei gyfnod yn y Borth yn fyr ond yn un hapus iawn, a hoffai'r teulu ddatgan eu diolch i drigolion y pentref am eu croeso haelionus. Wedi gwasanaeth hyfryd yn y tŷ bu dathliad o'i fywyd yn yr amlosgfa.

Arweiniwyd y ddwy oedfa yn urddasol gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones, a cafodd ei gynorthwyo gan y Parchedigion Wyn Morris, Elwyn Pryse ac Evan Morgan. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan Siw Hughes a Siôn Lewis. Talwyd teyrnged iddo gan ei fab yng nghyfraith John Hefin:-

Mae'n cydymdeimlad ni yn fawr â'i weddw Gwenda, ac â Elin a John Hefin, Ynys Wen a Meg a'r teulu yng Nghaerdydd.

## Teyrnged

Mae'n fraint frawychus i fod yma heddiw- a chael y cyfle i dalu teyrnged i Ifan, Dad, Taid. Roedd wyth deg a phedair o flynyddoedd Ifan yn llawn lliw; yn llawn o ymroddiad, ac yn llawn iawn o gariad at ei wraig a'i deulu gwerthfawr.

Gog a anwyd yn y Rhondda; (dechrau da!) Morwr, yn y Llynges Frenhinol, a drodd yn bysgotwr dynion; saer coed, perchennog siop lyfrau, a phrotestiwr.

Fe brofodd dros blyg y blynyddoedd chwyldro o fewn ei genedl annwyl. Anodd i ni heddiw yw gwir gofio naws y 60au-cyfnod Tynged yr Iaith, a'r ymgyrch ddigyfaddawd a fu'n fodd i newid y sefyllfa. Bu byddin fach o ŵyr a gwragedd da yn arwain y gad. Yn eu plith, yn eu canol — roedd Ifan.

Bu sawl awr dywyll yn ei fywyd . Colli tad a mam yn mlynyddoedd brau ei ieuenctid, colli llygad, colli capel, colli cartref, colli bywoliaeth, cyfres o golledion difrifol. Ond drwy hyn oll, roedd na bethau na gollwyd; pethau, gellid eu crynhoi yn syml iawn i dri gair, Ffydd, Gobaith a Chariad. Ffydd yn ei Grëwr, yn ei Wlad, a'i Heniaith. Gobaith gadarn am ddyfodol deg a haeddiannol i drigolion y cilcyn yma o dir , a chariad...

Gair anodd, a chymaint o ystyron. Hwyrach bod un hanesyn byr yn esbonio rhan fach, fach o ystyr cariad i Ifan. Wedi iddo golli ei gapel, roedd yn teithio bob nos Sul i bregethu mewn rhyw oedfa neu'i gilydd, rhai'n bell rhai'n agos i adref. Ond bob tro, er mai ond rhyw ddegswllt 50c byddai'n ennill am ei bregeth, mi fyddai'n ddi-eithriad yn dychwelyd â bocs o Milk Tray i Gwenda. Degswllt wedi went, ond dim ots, roedd na bethau pwysicach.

Roedd hi'n briodas ardderchog a oedd fel y dur. Gwnaeth y ddau gyfarfod yn 1952 yn Eisteddfod Aberystwyth ac roeddent yn bar trawiadol. Dywedodd hen, hen weinidog o Sir Benfro wrthyf unwaith, a'i lygaid yn llaith, 'Wedd

Gwenda yn gorgeous! A wedd Ifan ddim yn ddrwg chwaith'. Roedd Ifan yn hardd , ac os caf i ddyfynnu Gwenda 'Roedd e'n hardd ar ei wely angau' Tipyn o ddweud.

Mae na sôn fod na nefoedd ar y ddaear ac mae na le i gredu fod yna baradwys, lawr sha Boncath, Glandulais i fod yn fanwl gywir -sef 'Y Bwthyn'. Roedd Cwmcych a bro Pwyll wedi swyno Ifan a Gwenda, yn dir Na Nog ac yn Afallon ac yn le da i wrando ar Radio Tri, gwerthfawrogi cerddoriaeth glasurol oedd un o'i bleserau mawr.

Felly, bob haf yn ddi wahân byddai Elin, Siwan a Rhisiart yn treulio bob awr o'r gwyliau yn y bwthyn. Ifan yn potsian ar y to, neu gywiro rhyw ffenest. Gwenda'n gofalu ac yn cael tân gwell na St Tropez, a'r plant yn nofio yn yr afon, chwarae draffts ac yn neud y pethau mae plant yn neud o fore gwyn tan nos. Ymhell o ddwndwr a phrysurdeb y ddinas. Roedd yn falm i'r enaid a hen Gymreictod yn eu hamgylchynu.

Roedd o flaen ei amser o ran gwleidyddiaeth yn sicr, a hefyd o ran nifer o bethau eraill e.e. Siop yr Hen Bont ym Mhen-y-bont, Siop llyfrau Cymraeg a oedd hefyd yn gwerthu crefftau o bob math ac yn cynnig coffi. Buan iawn y trodd y siop yn ganolfan i Gymry'r dre. Bu hefyd yn arloesol wrth ddarparu ysgol Feithrin yn ei Festri (nid pawb o'i flaenoriaid gyda llaw oedd yn rhoi eu bendith ar y fenter.) Bu ei gyfraniad ef a Trefor Morgan i Ysgol Glyndwr yn un hynod gyffrous; hon oedd yr ysgol uwchradd gwbl Gymraeg, gyntaf yng Nghymru.

Elfen arall o fod o flaen ei amser oedd ei allu i goginio. Rhywbeth nad oedd yn ffasiynol iawn i ddyn ei wneud 'slawer dydd. Un o ffefrynnau'r teulu oedd ei gyris. Doedd dim Delis yn y Rhondda yn y 50au, felly byddai gweinidog Capel Ainon yn suro llaeth yn lle prynu Iogwrt yna cymysgu'r cynhwysion mwyaf egsotig i'r pair. Cafwyd sawl gwledd gofiadwy. Roedd hefyd yn giamstar ar spageti. Un o'i driciau oedd berwi spageti ac yna gydag amseru perffaith, tynnu un darn o'r sosban a'i daflu at wal gyfagos. Os byddai'r mwydyn gwyn hir yn llithro lawr y wal, mwy o goginio, taflu eto ac os byddai'n gynnu'n sownd, roedd y wledd yn barod. Mae rhai'n honni bod olion y spagetti yn dal ar wal cegin Howells Crescent ac yn edrych yn ddigon tebyg i un o gampweithiau Jackson Pollock!

Bu'r bennod olaf i Ifan yn un anodd- cystudd hir a blinderus. Ni chafodd yr un gŵr well gofal gan ei wraig na Ifan. Os oes rhywun wedi cadw eu llw priodasol, yn enwedig y cymal sy'n sôn am iechyd ac afiechyd, Gwenda yw honno. Mae i'w hedmygu o waelod calon. Ifan hefyd drwy gydol yr un mlynedd ar ddeg yn gwbl, gwbl di gwyn, dim unwaith y clywyd gwenwn, cwyno, achwyn, grwgnach na chintachu. A dyma i mi un o'r gwersi mawr sy'n rhan o etifeddiaeth Ifan Richard Williams.

Rhai dyddiau'n ôl, anfonodd Aled Gwyn yr englyn yma i Gwenda:-

### I Gofio Ifan R.

Di wyro, un o'n dewrion - eneidiol
Ei safiadau cyson;
Da i'w wlad, a'i Gwenda lon,
Arwr ei blant a'i wyrion.

Aled Gwyn

**John Hefin**

# LLANDRE




Lleucu Robers, enillydd Gwobr Tir na n-Og 2009 yn y categori uwchradd am ei nofel *Annwyl Smotyn Bach* (Y Lolfa) gyda'i golygydd, Alun Jones. Llun Tegwyn Roberts

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Lleucu Roberts, Dolgwiail gynt, ar ennill un o wobrau Tir na n-Og yn y categori uwchradd. Cyhoeddwyd yr enillwyr ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd dydd Iau. Cyhoeddwyd y nofel *Annwyl Smotyn Bach* gan y Lolfa a dyma drydedd gyfrol Lleucu ond y gyntaf i blant. Mae ganddi hi ac Arwel ei gŵr 4 o blant: Gruffudd 18, Ffraid 16, Saran 14, a Gwern 9. Gweler adolygiadau ar t.16-17 o'r nofel a CD grŵp Gruffudd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gyda Mr a Mrs Brenda Williams a'r plant, Berwyn, ar golli tad Brenda ym Mhenrhyn-coch. Hefyd Mr a Mrs Tom Griffiths, Glyntuen ar golli eu brawd ym Mhenrhyn-coch.

### Cyfarchion

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Nano Ellis Davies, Dolmeillion sydd wedi ymgartrefu ym Mhlas Cwmcynfelin.

### Treftadaeth Llandre

Cyfarfod nesa' - Gorffennaf 30 -Ymweliad a Chefn Caer, Tŷ Canoloesol ac Eglwys Pennal Machynlleth.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Tom Williams, Greenbank sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Mis Mai a noson ein cyfarfod blynyddol. Daeth Margaret Williams and Sue Davies atom unwaith eto i gyfri pleidleisiau ac rydym yn hynod ddiolchgar iddyn nhw. Bu ein llywydd Mrs Marion Jenkins yn ein hatgoffa am y nosweithiau diddorol a gawsom yn ystod y flwyddyn ac roedd hyn yn rhoi cyfle i'r pleidleisiau gael eu cyfri.

Dyma swyddogion 2009-2010
Llywydd — Nansi Hayes
Is-lywydd — Llinos Dafis
Ysgrifennydd — Linda Jones
Is-ysgrifennydd - Nans Morgan
Trysorydd — Mary Thomas
Is-drysorydd — Mair England
Pwyllgor — Regina Jones, Elina Davies, Marjorie Hughes, Megan Davies
Buom yn cymdeithasu dros baned a bwffe i ddiweddu'r noson
Croeso i aelodau newydd ymuno â ni ar y trydydd nos Lun yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 o'r gloch.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Cynhaliwyd cyngerdd ar Nos Sadwrn 30 i godi arian at atgyweirio'r Eglwys. Trefnwyd y cyngerdd gan Gillian Olewicz a chodwyd swm o dros £700 at yr achos.

# DOLAU

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwion a Sian Williams, y Felinheli ar enedigaeth merch — Mabli Fflur — ar Fai 16eg yn Ysbyty Gwynedd. Wyres i Lowri Williams a'r diweddar J. O. Williams, Madryn, Cadole, Yr Wyddgrug ( a Madryn, Dolau cyn hynny).

### Doethuriaeth

Llongyfarchiadau i Huw Williams, Sŵn yr Awel, ar ennill ei ddoethuriaeth yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol am draethawd ar waith athronyddol yr athronydd Americanaidd John Rawls. Pwnc y traethawd oedd 'Cyfrifoldebau y gwledydd cyfoethog gorllewinol am dlodi mewn gwledydd llai datblygiedig'. Bydd yn derbyn ei radd mis Gorffennaf yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Pob lwc iddo yn y dyfodol.

yTincer-Mehefin09.indd 5 16/6/09 11:05:33

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Yn ystod misoedd y gaeaf derbyniodd pump o'r Adran Iau hyfforddiant dan awenau Hyfforddwr Iau Dyfed, Mr Robert Ryder. Cafodd y Capten, Daniel Basnett (Bont-goch) a'r Is-gapten Zach Galliford (Y Borth) eu dewis i'r carfan hyfforddi o dan 16 oed a Luke Williams (Bow Street), Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) ac Ellis Lewis (Bow Street) ei dewis i'r carfan hyfforddi o dan 14 oed.

Ym mis Chwefror dechreuodd tymor yr adran iau trwy chwarae cystadlaethau pencampwriaeth y gwanwyn a noddwyd yn garedig gan Mr a Mrs Pete Basnett, gyda'r 5 sgôr gorau allan o'r 7.

**Canlyniadau**
Pencampwriaeth Gwanwyn 1 — Medal
1af Daniel Basnett (Bont-goch) 78:9:69
2il Andrew Gittins (Llanbadarn) 99:26:73
3ydd Angharad Basnett (Bont-goch) 88:13:75
Pencampwriaeth Gwanwyn 2 — Medal
1af Zach Galliford (Y Borth) 70:3:67
2il Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 111:36:75
3ydd Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 112:36:76
Pencampwriaeth Gwanwyn 3 — Stableford
1af Jac Morris (Y Borth) 40 pwynt
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 38 pwynt
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 37 pwynt
Pencampwriaeth Gwanwyn 4 — Medal
1af Jordan Roberts (Rhydyfelin) 107:42:65
2il Gethin Morgan (Pisgah) 97:27:70
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 75:3:72
Pencampwriaeth Gwanwyn 5 — Medal
1af Zach Galliford (Y Borth) 69:3:66
2il Rhodri ap Dafydd (Goginan) 86:17:69
3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 87:17:70
Pencampwriaeth Gwanwyn 6 — Bogey
1af Ellis Lewis (Bow Street) +6 (9 cefn)
2il Jordan Roberts (Rhydyfelin) +6
3ydd Gwenno Morris (Penrhyn-coch) +5
Pencampwriaeth Gwanwyn 7 — Medal
1af Rhodri ap Dafydd (Goginan) 86:17:69 (9 cefn)
2il Zach Galliford (Y Borth) 72:3:69
3ydd Andrew Gittins (Llanbadarn) 97:26:71

**Canlyniadau Terfynol**
1af Zach Galliford (Y Borth) 45 pwynt
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 35 pwynt
3ydd Daniel Basnett (Bont-goch) 29 pwynt
4ydd Gethin Morgan (Pisgah) 28 pwynt
5ed Steffan Thomas (Tal-y-bont) 25 pwynt

Cynhaliwyd sesiynau o Tri Golff yn Neuadd Cymuned Y Borth yn ystod mis Mawrth; mynychwyd yn dda gan aelodau o'r adran iau ynghyd â phlant newydd a oedd yn dangos diddordeb mewn chwarae golff. Croeso i unrhyw blentyn sydd â diddordeb mewn gwersi golff i ddechreuwyr sy'n cael eu cynnal ar fore Sul, cysylltu â'r Clwb Golff ar 01970 871202 i wneud ymholiadau.

Ar ddydd Mercher 6ed Mai chwaraeodd 9 o Adran Iau Clwb Golff Y Borth & Ynys-las dros eu ysgolion yn Pencampwriaeth Ysgolion Dyfed yng Nghlwb Golff Trefdraeth. Yn cynrychioli Ysgol Penweddig oedd Gwion a Rhodri ap Dafydd (Goginan), Steffan Richards (Y Borth), Daniel ac Angharad Basnett (Bont-goch) a Jacob Billingsley (Dôl-y-bont), ac yn cynrychioli Ysgol Pen-glais oedd Jac Morris (Y Borth), Zach Galliford (Y Borth) a Luke Williams (Bow Street). Daeth Zach Galliford yn drydydd yn y gystadleuaeth gyda gross o 76 ac fe fydd yn mynd ymlaen i chwarae dros Dyfed ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yng Nghlwb Golff Cradoc ym mis Gorffennaf.

**Canlyniadau**
9 Ebrill — Cystadleuaeth Stableford
1af Daniel Basnett (Bont-goch) 37 pwynt
2il Gethin Morgan (Pisgah) 30 pwynt
3ydd Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 29 pwynt
13 Ebrill — Cystadleuaeth Medal
1af Aaron Bull (Capel Bangor) 105:43:62
2il Sion Ewart (Bow Street) 111:42:49
3ydd Jordan Roberts (Rhydyfelin) 100:30:70
17 Ebrill — Cystadleuaeth Bogey
1af Aaron Bull (Capel Bangor) +5
2il Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) +4
3ydd Jordan Roberts (Rhydyfelin) +2
19 Ebrill — Cystadleuaeth Medal
1af Jordan Roberts (Rhydyfelin) 96:32:64
2il Steffan Thomas (Tal-y-bont) 101:35:66
3ydd Andrew Gittins (Llanbadarn) 91:22:69
25 Ebrill — Cystadleuaeth Stableford
1af Chris Davies (Clarach) 41 pwynt
2il Steffan Thomas (Tal-y-bont) 39 pwynt
3ydd Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 38 pwynt
2 Mai — Cystadleuaeth Medal
1af Tyler Roberts (Rhydyfelin) 109:45:64
2il Steffan Thomas (Tal-y-bont) 98:32:66
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 73:2:71
26 Mai — Cystadleuaeth Medal
1af Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 83:16:67
2il Iolo ap Dafydd (Goginan) 96:28:68
3ydd Daniel Basnett (Bont-goch) 80:10:70
28 Mai — Cystadleuaeth Bogey
1af Zach Galliford (Y Borth) +4 (9 cefn)
2il Jordan Roberts (Rhydyfelin) +4
3ydd Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) +2

**Canlyniadau Medal Misol Mawrth**
1af Steffan Thomas (Tal-y-bont) 108:45:63
2il Gethin Morgan (Pisgah) 95:28:67
3ydd Daniel Basnett (Bont-goch) 78:9:69
Gross gorau — Zach Galliford (Y Borth) 73

**Ebrill**
1af Ben Slater (Y Borth) 99:36:63 (9 cefn)
2il Alex Watt (Machynlleth) 106:43:63
3ydd Ben Hughes-Jones (Tal-y-bont) 96:31:65
Gross gorau — Zach Galliford (Y Borth) 73



**Zach yn Chwarae i Gymru**
Yn ystod mis Ebrill bu Zach Galliford sy'n 14 oed ac yn dod o'r Borth yn chwarae ddwy waith dros dîm Cymru o dan 16 oed yn erbyn Swydd Efrog yng Nghlwb Golff Huddersfield. Dim ond colli 2 i 1 fu'r hanes yn y bore ond fe oedd yr unig chwaraewr o dan 16 i ennill yn sesiwn y prynhawn o 5 i 4. I ddilyn hyn chwaraeodd Zach yng Nghlwb Golff Machynys, ger Llanelli, yn erbyn tîmau eraill o'r Iwerddon, Alban a'r Iseldiroedd. Y canlyniadau terfynol oedd, Iwerddon yn ennill gyda 22 o bwyntiau, Cymru a'r Alban yn gydradd ail gyda 20 o bwyntiau a'r Iseldiroedd yn drydydd gyda 18 o bwyntiau.



Anne Hubbard, Iori Jones, Nans Morgan, Karen Evans a Zach Galliford



Yn y llun mae Luke a Jacob gyda hyfforddwr Iau Dyfed, Rob Ryder ac ar y dde, Dai Lindquist, Trefnydd Iau Dyfed.

# TREFEURIG

## Ffrindiau Cyflym Penbont



Mae'r ddau ffrind, Luke Davies, Maes-y-Rhosyn, a Ryan Waters, Hen Swyddfa Bost, yn brysur gwneud enw iddynt eu hunain ym myd beiciau modur a theithio'n gyflym. Dechreuodd Luke ,19 oed, gystadlu ar rasio MotorCross pan yn bedair ar ddeg. Dechreuodd Ryan, 15 oed, gystadlu ar MotoCross a Grasstrack pan oedd yn 11 oed. Dros y blynyddoedd mae Luke wedi ennill llawer troffi a Ryan wedi ennill tua hanner cant o droffis.

Diwedd tymor 2007, ac yntau ar y blaen mewn ras, cafodd Luke ddamwain ddrwg, pryd y torrodd asgwrn yn ei gefn a chael anafiad gwael i'w fraich dde. Roedd nôl ar y traciau yn 2008 gan ddiweddu'r tymor hwnnw nid yn unig yn ail yng nghystadleuaeth Clwb Rhaeadr ond hefyd yn ail yng ngystadleuaeth B.S.M.A. Cymru ac ennill yr adran i "ieuentyd" yn rasio nos Fercher yn Rhaeadr. Dros benwythnos y Pasg eleni enillodd gwpan arall ac ar hyn o bryd ef sydd ar y blaen yn y gystadleuaeth rasio nos Fercher.

Llynedd torrodd Ryan ei fraich yntau tra yn cystadlu mewn ras, ond mae ef hefyd wedi dod nôl yn gryf y tymor hwn gan ennill tair ras yn ddiweddar yng Nghlwb Rhaeadr. Cyd ddigwyddiad tybed? O gofio bod y ddau mor agos ac yn cefnogi ei gilydd ar bob achlysur medrwch fod yn sicr mai testun pob sgwrs rhwng y ddau bob amser yw beiciau, rasio a mynd yn gyflym.

Disgybl yn ysgol Pen-glais yw Ryan ond ar benwythnosau rasio, bydd ef a'i dad i'w gweld yn teithio yn eu camper i'r gwahanol draciau.

Wedi gorffen ei brentisiaeth fel peirianydd beiciau yn garej E.T. James a'i Feibion Rhaeadr — lle dysgodd hefyd sut i adeiladu beiciau MotorCross, mae Luke wedi cael swydd gyda M.E.M. Motor Sport ar stâd ddiwydiannol Glanyrafon.

Mae'n siwr bod dyfodol y ddau ffrind yma yn mynd i fod yn ynghlwm i'r byd MotorCross yn rasio ac yn paratoi beiciau. Pob lwc a llwyddiant iddynt.

## Diolch

Hoffai Edwina Davies ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y llu cardiau, cyfarchion, anrhegion a charedigrwydd dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd ym mis Mai. Diolch o galon i'r teulu agos am baratoi parti annisgwyl mor ardderchog ac i Tegwyn Jones am y penillion arbennig.

## Genedigaeth a Phriodas Rhuddem

Llongyfarchiadau i Sian ac Andy Jones ar enedigaeth merch fach — Catrin, yng Nghaerdydd ar Mai 22ain. Wyres cyntaf i Dwynwen a Chris Belsey, Tŷ Newydd, Cwmerfyn. Ar yr un penwythnos dathlwyd Priodas Ruddem Dwynwen a Chris ar Fai 24ain. Braf oedd cael wyres i wneud achlysur y Briodas Ruddem mor fythgofiadwy.



Dwynwen a Chris

## Te Mefus a Hufen

Bydd Te Mefus a Hufen, er budd yr Ambiwlans Awyr, yn cael ei gynnal yn Hen Ysgol Trefeurig prynhawn Sul, Gorffennaf 19eg rhwng 3-5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

## Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus i Roxanne Cowley, Tŷ Capel, Cwmerfyn, a fydd yn un deg wyth oed ar 16 Gorffennaf 2009 oddi wrth y teulu.

Hefyd pen blwydd hapus i Gwenllian Davies, Maes y Rhosyn, Trefeurig a ddaethlodd ei phen blwydd yn un deg wyth oed ar y 10fedo Fehefin oddi wrth ei ffrindiau.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gideon Koppel, Lletycaws ar y llwyddiant a'r adolygiadau bendigedig mae ei ffilm "Sleep Furiously" yn ei dderbyn ers i'r ffilm gael ei rhyddhau.

Gwnaethpwyd y ffilm, sydd yn olrhain bywyd a gwaith rhai o bobl Trefeurig, tua tair mlynedd yn ôl.

Yn ôl y broliant; "Mae'r ffilm ddogfen fesmeraidd a mydryddol hon yn cyflwyno tirwedd sy'n newid yn gyflym wrth i amaethyddiaeth ar raddfa fach ddiflannu ac wrth i'r gymuned orfod dysgu addasu i'r cyfnod modern: mae'r beic cwad wedi cymryd lle'r merlyn, mae'r ffôn symudol yn golygu nad oes rhaid i bobl weiddi ar draws y cwm, a cheir creaduriaid egsotig megis y lama yn dechrau ymddangos, ochr yn ochr â'r defaid a moch Coedgruffydd.

Bu'r ffilm i'w gweld yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod mis Mehefin a bydd Gideon yn cynnal gweithdy cwestiwn ac ateb ar ôl perfformiad dydd Sadwrn, Mehefin 20fed.

Ymddangosodd nifer o adolygiadau canmoliaethus yn ddiweddar — gweler http://www.trefeurig.org/ Bydd y ffilm hefyd i'w gweld yng Ngŵyl Bywyd Gwerin y Smithsonian yn Washington DC y mis yma.- gweler http://www.walesworldnation.com/server.php? show=nav.10176



# BOW STREET

**Suliau**
**Gorffennaf-Medi**
**Capel y Garn**
**http://www.capelygarn.org/**

10 a 5
Gorffennaf
5 Dafydd Tudur
12 Oedfa'r ofalaeth 10.00
19 Bugail
26 Huw Roderick Rhodri Glyn

Awst
2 Noddfa 10
9 Lewis Wyn Daniel
16 Noddfa 10
23 J. Elwyn Jenkins
30 Noddfa 10

Medi
6 Raymond Davies Bugail
13 Harding Rees
20 Bugail
27 G. Madoc Jones

**Noddfa**
Gorffennaf
5 Uno yn y Garn am 10.00
12 Oedfa am 2.00 Gweinidog
19 Oedfa am 10.00 Miss Delyth Morgans
26 Oedfa am 2.00 Y Parchg Andrew Lenny Cymun

Awst
2 Oedfa am 10.00 Mr Arwyn Pierce
9 Uno yny Garn am 10..00
16 Oedfa am 10.00 Y Parchg J.E. Wynne Davies.
23 Uno yn y Garn am 10.00
30 Oedfa am 10.00 Gweinidog Cymundeb

Medi
6 10.00 Y Parchg T J Irfon Evans
13 10.00 Uno yn Y Garn am 10.00
20 10.00 Y Parchg. Raymond Jones. Cymundeb.
27 5.00 Miss Beti Griffiths. Diolchgarwch

## Gohebydd

Mae Meinir Evans yn dymuno cael ei rhyddhau o fod yn ohebydd Bow Street i'r Tincer. Diolch iddi am ei gwaith yn ystod y cyfnod y bu yn ohebydd.

Mae angen rhywun i yrru newyddion rheolaidd i'r Golygydd o'r pentref i ymuno â Anwen Pierce a Mair Lewis. Os ydych â diddordeb cysyllter â'r Golygydd.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau cynnes i Mrs Dorothy Rees, Brysgaga gynt, ar enedigaeth wyres fach arall. Croeso i Grace Alexandra, merch fach Mary a Wyn Morgan Rees a chwaer Sienna.




Fore Sul Mai 24ain yn Eglwys St Luke, Treganna, Caerdydd bedyddiwyd Ellie Mai$Lloyd Jones, merch Aled ac Amanda Lloyd Jones a wyres Gwen Jones, Lasynys, Brynmeillion. Yn y llun gyda hwy gwelir y rhieni bedydd - Dylan a Janet Ebenezer (ffrindiau y rhieni),Vicky Chambers (ffrind) a Huw Lloyd Jon es (brawd Aled).



Rhun Gwynedd ap Robert a Magdalena Bek ar achlysur eu priodas yn Eglwys Gatholig Sant Pedr yng Nghaerdydd ar y 9fed o Fai. Roedd y gwasanaeth yn gytbwys ddwyieithog Cymraeg a Phwyleg, gyda'r Tad Jason a'r Tad Bogdan yn gweinyddu. Cafodd Rhun ei fagu yn Bow Street , ac mae Magda yn hanu o Wlad Pwyl. Mae Magda wedi dysgu Cymraeg yn dda, mewn cyfnod cymharol fyr. Dechreuodd drwy fynychu gwers flasu yn Aberystwyth cyn ymaelodi â dosbarth Wlpan. Parhaodd i fynychu dosbarth deirgwaith yr wythnos wedi symud i Gaerdydd. Fe wnaeth ei haddewidion priodas yn Gymraeg gan fod yn rhaid eu gwneud yn un o ddwy iaith swyddogol y wlad hon

## Noson Goffi Noddfa

Cynhelir Noson Goffi flynyddol Capel Noddfa nos Wener 3 Gorffennaf yn Festri`r Capel am 7.00 o`r gloch.

## Swydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gregory Vearey-Roberts ar gael swydd ddysgu yn Ysgol gynradd Llanerfyl.

## Newid aelwyd

Croeso i Noel a Maureen Lloyd sydd wedi symud i 2 Brynmeillion o Lôn Glanfred, Llandre



## Disgyblion llwyddiannus

Llongyfarchiadau i Eleri Turner, Maes Afallen — daeth ei disgyblion- pum telynores o ysgol gynradd Tal-y-bont — yn gyntaf yn Ensemble offerynnol blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd.

## Cynhadledd yng Nghaerdydd

Bydd Morfudd Clark, Bron Ceiro, yn cymryd rhan mewn cyfweliad cyhoeddus yng Nghaerdydd fel rhan o gynhadledd a drefnir gan Ysgol Astudiaethau Ewropaiadd, 'Fractured Identities: Hispanic Visual Cultures' (3-4 Gorffennaf, 2009). Enw dros dro ar gyfer y sesiwn gyda Morfudd yw 'O Fronceiro i Folifia: Sgwrs gyda Morfudd Rhys Clark', a bydd yn digwydd am 5.15yp, dydd Sadwrn, 4 Gorffennaf yn Ystafell y Cyngor, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd. Bydd Dr Diana Luft, Cymrawd Ôl-ddoethuriaethol yr Academi Brydeinig, o Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd yn sgwrsio gyda Morfudd am ei bywyd hi yn America Ladin, am ei thad a'i ffotograffau, ac am y profiad o fyw rhwng dau ddiwylliant (Cymru ac America Ladin). Mae Dr Luft yn gwneud ymchwil ar T. Ifor Rees. Bydd arddangosfa o ffotograffau T. Ifor Rees i'w gweld yn Oriel Viriamu Jones, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd. Mae'r sesiwn a'r arddangosfa yn agored i bawb ond mae'n rhaid cofrestru a thalu am weddill y gynhadledd. Am fwy o fanyion gweler http://www.cardiff.ac.uk/euros/newsandevents/events/fractured.html

## Rhedwr yn diolch

Llongyfarchiadau i James Thomas am redeg Marathon Llundain eleni mewn 3 awr 23 munud. Codwyd dros £2,500 ar gyfer yr elusen Asthma UK. Hoffai James ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac arian noddi.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Cafwyd ein cyfarfod blynyddol ar Fai 11eg. Croesawodd Lisa Davies, y llywydd, bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd fraslun o weithgareddau'r flwyddyn, yna darllenodd Margaret Roberts y cofnodion a rhoddodd Jean Davies, y trysorydd, adroddiad ariannol y gangen. Ar ôl trafod yr ohebiaeth daeth i law aethom ymlaen i ail ran y noson gyda Gyrfa Chwist

# MADOG

Hwyliog gyda Dewi Evans yn ei ffordd amyneddgar yn trefnu a chadw trefn. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi'i threfnu gan y pwyllgor. Y Pwyllgor am y flwyddyn nesaf yw:
Llywydd: Gwenda Edwards;
Is-lywydd: Beryl Hughes, Pantyperan;
Ysgrifennydd: Brenda Jones;
Is-ysgrifennydd: Ann Jones;
Trysorydd: Linda Gay;
Is-drysorydd: Mary Thomas;
Aelodau'r pwyllgor: Beryl Hughes, Annette Morgan, Elen Evans, Elisabeth Davies, Margaret Roberts a Jean Davies.

Edrychwn ymlaen at ein trip i Gegin Gareth Richards.

## Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street

Cynhaliwyd ein Noson Goffi flynyddol ar Fai 22ain. Croesawodd y Parchg Richard Lewis bawb i'r noson a chyflwynodd Mr a Mrs Ken Davies i agor y noson. Cafwyd araith bwrpasol gan Mr Davies. Cyflwynwyd blodau i Mrs Davies gan Ffion Evans. Roedd y Neuadd yn llawn bwrlwm a bu'r stondinau yn brysur iawn gydol y nos. Mae diolch y pwyllgor yn fawr i'r ardalwyr am eu cefnogaeth eleni eto i wneud y noson yn llwyddiant mawr.

## John Thomas Evans (John Caergywydd)

Gyda thristwch y cofnodir i rawd ddaearol John Thomas Evans, 39 Maes Ceiro, ddod i ben pan fu farw`n dawel yn Ysbyty Bron-glais ar y 6ed o fis Mai yn 77 mlwydd oed. Fel John Caergywydd yr adnabyddid John yn gyffredinol a hynny oherwydd mai yng Nghaergywydd y treuliodd y rhan helaethaf o`i oes ac oherwydd mai erwau cysegredig Caergywydd oedd canol y bydysawd yn ei olwg ef. A hyd yn oed ar ôl ymddeol a symud i Faes Ceiro gryn ddeng mlynedd yn ôl bellach yr oedd wedi dal ati i fynd yn ôl i Gaergywydd bron bob dydd, yn wir yr oedd wedi bod yno ar fore`r diwrnod y cafodd ei daro`n wael ac anymwydodol mor fuan ar ôl y Pasg.

Gŵr ei filltir sgwâr oedd John o`i gorun i`w sawdl, yma y cafodd ei eni a`i fagu, yma yr aeth i`r ysgol a thyfu i fyny ac yma y cafodd y fraint o dreulio ei flynyddoedd yn hapus iawn ei fyd yn dilyn ei grefft fel amaethwr. Pobl y cyffiniau hyn oedd ei rieni, hefyd ac fe fagodd y ddau bedwar o blant ar aelwyd Caergywydd, sef John, Bethan, Dei a Llew. Bellach Bethan a Llew yn unig sydd ar ôl. Wedi dod i oed fe gafodd John un o ferched glandeg Pen Llŷn yn wraig. Ac fel mae`n medru digwydd fe briododd dau frawd ddwy chwaer, John yn priodi Ray a Dei yn priodi Ellen. Yn y man bendithiwyd John a Ray â dwy ferch, Sian ac Ann, ac erbyn hyn y mae cenhedlaeth newydd yn byw ac amaethu yng Nghaergywydd gan fod Sian ac Alun wedi ymsefydlu yno a thraed bach William a Gerwyn yn bywiogi`r lle unwaith eto.

Gellir dweud heb unrhyw amheuaeth bod John wedi rhoi ei oes i Gaergywydd ac mae`r graen sydd ar y lle heddiw yn dystiolaeth bendant i hynny. Gweithiodd yn galed iawn yno ar hyd y blynyddoedd gan ymdrechu i wella bob amser; gwella graen y stoc, gwella ansawdd y llaeth yn y dyddiau pan oedd buches odro yno, a gwella graen y borfa ac ansawdd y tir hefyd. Dyna oedd ei fyd, dyna oedd ei grefft a dyna oedd ei gamp a phob clod iddo am hynny. Os oedd Caergywydd yn agos at galon John rhaid nodi bod Bow Street yn agos iawn at ei galon hefyd, ac nid oedd yn brin o ddatgan hynny ychwaith. Fel ei deulu bu`n aelod ffyddlon yng Nghapel y Garn ar hyd ei oes, yn oedd yn Gynghorydd lleol ac yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Tirymynach. Ymddiddorai`n fawr mewn pob math o chwaraeon, pêl-droed yn arbennig ac roedd yn ddarllenwr mawr a`i wybodaeth o`r herwydd yn eang iawn. Fel cymydog am dros ddeg mlynedd yr oedd yn ddi guro a mawr yw fy ngwerthfawrogiad o`r mynych sgyrsiau hir a gefais ag ef dros y ffens ac yn y tŷ, sgyrsiau a ddysgodd lawer i mi am Bow Street a rhai o gymeriadau`r pentref, am angerdd John tuag at ei deulu ei gapel a`i iaith, ac am agwedd at fywyd fydd yn ysbrydoliaeth i mi am byth.

Mae`n debyg bod cyd-ddigwyddiadau yn medru bod yn bethau rhyfedd. Roedd John Caergywydd a John George Davies (John Blaeni) yn dipyn o ffrindiau ers yn blant yn Bow Street. Geiriau olaf John Davies wrthyf cyn ei farw ar 24 Ebrill oedd "Shw mae John Caergywydd". Geiriau olaf John Caergywydd wrthyf ar brynhawn dydd Llun y Pasg, y prynhawn cyn iddo gael ei daro`n wael oedd "Sut mae John Davies, John Blaenddôl, bydd yn rhaid i mi alw i`w weld"!

Coffa da amdano a phob cydymdeimlad â`r teulu a`r cysylltiadau oll.

**Richard H Lewis**

Suliau
Gorffennaf-Medi
Madog
2.00

Gorffennaf
5 Dafydd Tudur
12 Oedfa'r ofalaeth 10.00 y Garn
19 Bugail
26 Rhodri Glyn

Awst
2
9 Lewis Wyn Daniel
16
23 J. Elwyn Jenkins
30

Medi
6 Raymond Davies
13 Harding Rees
20 Bugail
27 G. Madoc Jones

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Erwyd Howells, Gethin ac Elen a'r teulu, Tŷ Capel Madog ar farwolaeth tad yng nghyfraith Erwyd — John Davies Griffiths, 13 Ger-y-llan, Penrhyn-coch.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi a theulu'r Fronfraith ar golli perthynas — Mrs Phyllis Evans, Comins-coch.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Jack Smith, Y Bwthyn, Cefn-llwyd ar ôl derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

Gobeithio fod Mrs Elizabeth Royle Evans, Elonwy yn dal i wella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.



Mr a Mrs Ken Davies yn agor Noson Goffi Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street, gyda'r Cadeirydd y Parchg Richard Lewis a Ffion Evans yn cyflwyno blodau i Mrs Davies.



Llongyfarchiadau i Gwawr Keywarth, Deiniol, ar ennill y gyfres Dawns-tastig ar S4C. Fe aeth yr enillwyr i Majorca dros y Pasg i ymuno gyda Chwmni Dawns Gwerin Bro Taf yng nghystadleuaeth Dawnsio Gwerin y Byd. Roeddent yn falch i fod yn rhan o'r digwyddiad. Enillodd Bro Taf Bencampwriaeth y Byd yn Dawnsio Gwerin dan 15 oed.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

**Gorffennaf**
5 Teithio i wasanaeth yn Salem, Cefncymerau lle bydd ein Gweinidog yn pregethu am 2.00
12 10.30 Gwasanaeth teuluol Gweinidog
19 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
26 10.30 Oedfa gymun Gweinidog

**Awst** - ymuno a eglwysi y dref
2 Terry Edwards, Y Morfa
9 J.E. Wynne Davies, Seion
16 Iwan Llewelyn Jones, Bethel
23 Meirion Lloyd Davies, Y Morfa
30 Felix Aubel, Seion

**Medi**
6 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
27 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

## Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Mehefin, 8 a 22 Gorffennaf, 12 a 26 Awst, 9 a 23 Medi. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad i bawb o'r canlynol a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar: Ronnie Evans, Bronhaul; Mair Evans, Glan Ceulan; Adrian Hurford, Dolhelyg; Katie Nash, Dolhelyg; Bethan Uttley, Ger-y-Llan; Cerys Humphreys, Gelli; Dolly Davies, Bryntirion.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Cyn gwyliau hanner tymor fe aethom i Goedwig Gogerddan i weld y carped o Glychau'r Gog ac fe gawsom bicnic yna hefyd.

Yr ydym wedi bod yn brysur yn garddio yn planu ffa, moron, pys, mefus a blodau.

Fe fyddwn yn mynd i ganu gyda Martin Geraint ym Mhafiliwn y Bont ar 16 Mehefin yn ein Gŵyl Feithrin ac ar y 25 o Fehefin fe fydd ein bore agored o 10 y bore — 12. Croeso cynnes i bawb.

Am unrhyw wybodaeth am y Cylch a gynhelir 5 bore'r wythnos i blant 2-4 oed yn Neuadd y Penrhyn cysylltwch â Gwenan Price, ffôn 07527035190.



## Merched y Wawr, Penrhyn-coch

Ar nos Iau, 14eg o fis Mai daeth tymor arall i ben. Fe aethom am noson i Langrannog. Yn gyntaf fe aethom i ganolfan yr Urdd yno, ac yr oedd yn agoriad llygad i amryw ohonom i weld sut mae y lle wedi datblygu ar hyd y blynyddoedd. Rhai ohonom yn cofio mynd i'r Ganolfan yn ôl yn y pedwar-degau ac yr oedd yn ddiddorol edrych ar hen luniau oedd o'r plant a fynychodd y gwersyll ar hyd yr holl amser, ac hefyd y staff oedd â gofal y lle. Fe welwyd rhai wynebau cyfarwydd i ni ac yn eu mysg Elisabeth Wyn, un o'n haelodau a fu yno yn un o staff y Banc. Ar ôl treulio tipyn o amser yno fe aethom i'r Ship yn Llangrannog i gael swper. Cafwyd croeso arbennig gan Sara a'i chriw, merch Sandra Beechey, un o'n haelodau. Yr oedd wedi paratoi bwffe blasus dros ben i ni.

Tra yn mwynhau y swper fe drafodwyd peth o fusnes y gangen ac fe etholwyd is-swyddogion am y tymor nesaf. Yr ydym yn ffodus i gael aelodau sydd yn ffyddlon iawn ac yn barod i fod yn weithgar tros y gangen.

Ar ôl i'n llywydd ddiolch i staff lawr yng nghanolfan yr Urdd fe wnaeth ddiolch i bawb yn y gangen am fod yn gymorth iddi tros ei hamser fel llywydd ac hefyd diolchodd i Sara a'i staff am noson wych. Er fod y tywydd wedi bod yn ddiflas tu allan drwy gydol y nos fe aeth pawb tua thre wedi mwynhau.

Y pwyllgor am 2009/10 fydd:
Llywydd: Ceri Williams
Is-lywydd: Glenys Morgan
Ysgrifennydd: Elisabeth Wyn
Is-ysgrifennydd: Elsie Morgan
Cofnodwr: Mair Evans
Is-gofnodwr: Alwen Fanning
Trysoryddion: Sandra Beechey ac Eirlys Davies
Is-drysorydd: Eirwen Hughes a Delyth Ralphs
Dosbarthwr y Wawr: Miriam Garrett
Gohebydd y wasg: Mairwen Jones a chyn-swyddogion 2008/9 Janice Morris, Mona Edwards, Mary Thomas, Glenys Thomas a'r Parchg Judith Morris.

## Priodi

Dymunwn longyfarch Rachel ac Emlyn, Ger-y-Llan ar eu priodas yn ddiweddar.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Kirsty ac Emlyn Rees, Dolhelyg, ar enedigaeth merch fach — Cari.

Hefyd Mr a Mrs Walters ar enedigaeth bachgen, brawd bach i Chloe.

## Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Dr Paul Bevan, Felin Ddewi, Trysorydd y Tincer, sydd wedi cael ei benodi yn Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn Adran Gwasanaethau Corfforaethol y Llyfrgell Genedlaethol.

## Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Lea Adams, Glyn Helyg, ar ennill un o Ysgoloriaethau Mynediad Evan Morgan i Brifysgol Aberystwyth

## Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £933,08. Mae hyn yn cynnwys £153 o ginio'r tlodion a drefnwyd gan Eglwys Sant Ioan. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n

Tra ar dymor sabothol ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio bu Lisa Jones, Bod Organ (ail o'r dde) a myfyrwyr eraill o Goleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin, yn perfformio ymgom theatrig wedi ei seilio ar gyfrol Brooks Jones Lonesome valley. Roedd y diweddar Brooks Jones o dras Gymreig ac wedi ei fagu yn Jackson, Ohio yn fab i deulu a oedd yn amlwg yn y gymuned. Mae'r gyfrol yn sôn fel y bu i'r ardal wrth droed bryniau Appalachia addasu i fywyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Dychwelodd Lisa erbyn hyn i Gymru lle mae ar fin gorffen ei hail flwyddyn yng Nghaerfyrddin lle bydd yn graddio yn 09/10. Gyda hi yn y llun mae Lynwen Harris, Elliw Alwen, ac Osian Edwards (Aberangell fu'n aelod o Licyris Olsorts). Llun: Robert Wolfe (trwy ganiatâd y ffotograffydd a *Ninnau*)



Lonesome valley

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL PATRASA**

**Nos Fercher 8fed Gorffennaf 2009**

**Yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch: dechrau am 19.30.**

**Mae hwn yn gyfarfod agored - rydym yn annog ar bawb i ddod i leisio barn neu ymuno â'r pwyllgor.**

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

casglu yn y pentref er sicrhau fod casglu yn digwydd yn yr ardal eto eleni. Yn ogystal â'r casglwyr arferol Gabi Coulter-Brown, Glyn Collins, Mervyn Hughes, Mairwen Jones, Glenys Morgan, Gwenan Pryce, Wendy Reynolds, Wendy Roberts, Elenid Thomas, y Parchg Judith Morris, Ceri Williams, Margaret Lyle, Mair Evans a Dafydd Sheppard cafwyd cymorth eleni gan Iwan B Roberts, a Job MacGauley.

## Swydd newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled Griffiths — gynt o Dôl Helyg, ar gael ei benodi yn athro dyniaethau yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Bu Aled yn drysorydd y Tincer am gyfnod byr cyn iddo adael yr ardal — mae yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith yn Aberteifi ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Griffiths a'r teulu, 13 Ger-y-llan ar farwolaeth ei gŵr - John Davies Griffiths ar Fehefin 8fed.

## Swydd newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meleri Jones, Rhydyrysgaw, Glan Ceulan a Chaerdydd ar ei swydd newydd fel pennaeth addysg grefyddol yn Ysgol Gyfun Llangynwyd. Bu Meleri yn dysgu ers rhai blynyddoedd yn Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd a bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi.

**Cymdeithas Caeau Chwarae Penrhyn-coch a Trefeurig (PATRASA)**

**Barbiciw a Râs Balwn**
**Dydd Sadwrn 27ain Mehefin 2009**
**Yn dechrau am 15.00.**
**Bwyd, Diod, Adloniant teuluol. Mynediad am ddim!**

**Elusen cofrestredig rhif 504350**

## Rhedeg yn Ewrop

Llongyfarchiadau i Elinor Throrogood, Glan Ceulan ar gael ei dewis yn rhan o dîm Prydain i rasio yn Nhriathalon Ieuenctid Ewrop yn Tarzo, ger Venice yn yr Eidal ar Fehefin 21ain.

## Diolch

Dymuna teulu y ddiweddar Gwyneth Harris, 5 Cefn Melindwr, Capel Bangor ddiolch yn gynnes i bawb am y rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £350.00 tuag at "Age Concern" Ceredigion.

## Pen blwyddi arbennig

Dymuniadau gorau i Rhian Ellis, Hywelfan, a hefyd ei mam Ann, y ddwy wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

## Gwellhad buan

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Idwal Williams, Llwyn onn, Aber-ffrwd sydd ddim wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

## Llwyddiant mewn Rali

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Powell, Pen-llwyn; Angharad Spence-Wilson, Aber-ffrwd ac Annie Lewis, Glan Rheidol, ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth barnu Cobiau Cymraeg yn Rali Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Enillodd Annie y wobr gyntaf o dan 16, Angharad y wobr gyntaf o dan 18 a Lowri yr ail wobr o dan 26 gan sicrhau y wobr am y tim gorau drwy'r Sir.

Mae y tair yn aelodau gweithgar iawn o Glwb Trisant a chawsant eu hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth gan Dafydd Morris, Neuadd Parc. Mae y tair yn ddiolchgar iawn iddo am roi o'i amser i'w harwain i fuddugoliaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Llongyfarchiadau hefyd i nifer o aelodau eraill a gafodd dipyn o lwyddiant yn y Rali eleni.

## Diolch

**Emrys Hughes, Bodwyn, Ffordd Caradog, Aberystwyth**
Dymuna Elenid, Rhiannon a Meinir a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu tristwch a'u galar o golli Emrys. Diolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth yn Seion dan ofal y Parchg Andrew Lenny.ac i Mr C Trefor Evans am y trefniadau angladdol trylwyr. Cydnabyddir yn ddiolchgar hefyd y swm haelionus o £2750 a dderbyniwyd er cof am Emrys tuag at Ffagl Gobaith.

# Taith i ymweld â bedd Wncwl Eilir

Teithiom draw i Tunisia i weld bedd Hen Hen Wncwl Eilir, Tŷ Newydd, Llangwyryfon. Hwn oedd y tro cyntaf i mam-gu (sef Jane Jenkins, Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch) i ymweld â'r bedd. Roedd mam-gu yn blentyn ysgol pan gafodd ei ladd.

Bu farw Hen Hen Wncwl Eilir ar y 29ain Ebrill 1943 yn 26 oed ym Massicault, Borj El Amri, 25km o Tunis adeg yr Ail Ryfel Byd, 12 diwrnod cyn i'r rhyfel yn Tunisia orffen.

Roedd y fynwent yn lle hardd a thawel, roedd yn wyrdd ac yn daclus iawn. Bedd ar ôl bedd gwyn — roedd 1578 bedd yno. Rhoddodd mam-gu dorch o flodau pabi ar y bedd a rhoddodd Sian Fflur, Gwenan Hedd a fi groes fach yr un.

Ar y bedd roedd:

6471528 Corporal
W E EVANS
The Royal Fusiliers
29th April 1943 Age 26

Yn Angof ni chaiff fod
gan Dad, Brodyr a Chwiorydd
Tŷ Newydd, Llangwyryfon

Roedd yn neis iawn i weld Cymraeg ar y bedd. Diwrnod na fyddwn byth yn ei anghofio fel teulu.

**Seren Wyn**


Y Bedd



yTincer-Mehefin09.indd 11 16/6/09 11:05:56

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

### Enillwyr Clwb 100 Neuadd Pen-llwyn

1. Rhif 96 - £20.00 -Eifion Thomas, Troedrhiwlwba, Capel Bangor
2. Rhif 73 - £10.00 - John Spink, 1, Cefn Melindwr, Capel Bangor
3. Rhif 19 - £5.00 — D I H Jones, Min y Gog, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth
4. Rhif 69 - £5.00 - Karen Thomas, Ger y Nant, Tal-y-bont

### Cyngor Cymuned Melindwr

Os oes gan rhywun syniadau am bethau y maent eisiau eu datblygu fel prosiect cymunedol a wnewch eu danfon at y clerc - Meinir Evans, 43 Maes Afallen, Bow Street neu trwy e-bost - meinir.evans@hotmail.co.uk

### Dalier Sylw

Cynhaliodd Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor farbeciw yn ddiweddar.
Ni chasglwyd y gwobrau raffl ar y noson. Dyma'r rhifau fel a ganlyn: 178 Oren, 314 Gwyrdd, 366 Pinc, 409 Gwyrdd a 426 Pinc.
A fyddech mor garedig a chysylltu â 01970 880238

### Genedigaeth

Croeso a dymuniadau gorau i Sinjon Fish, 9 Cefnmelindwr, mab bach newydd anedig Jane a Steve.

### Dosbarth Beibl y Merched

Cynhaliwyd y dosbarth olaf am y tymor, ar Fehefin 1af ym Mhen-llwyn. Llawer o ddiolch i Mrs Rina Macdonald am arwain a pharatoi bob mis, erbyn y dosbarth, trwy fisoedd y gaeaf, pryd y cafwyd mwynhad a bendith wrth gyfarfod pob yn ail yng nghapel y Dyffryn, Goginan. Edrychwn ymlaen i ail ddechrau ar Hydref 5ed.

### Ysbyty

Mae Mrs Sally Evans, Tywynfa, yn dal yn ysbyty Tregaron, wrth fynd i'r wasg, ond deallwn ei bod yn gwella. Cofion cynnes ati.

### Merched y Wawr Melindwr

Croesawyd ni i'n cyfarfod mis Mai ar nos Fawrth y pumed o'r mis, gan ein Llywydd, Mary Jones. Yn anffodus, methodd ein gwraig wâdd ddyfod atom oherwydd anhwylder, ond gobeithiwn gael ei chwmni, rhywbryd eto. Aeth y llywydd dros weithgarwch y flwyddyn. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith clodwiw, ac i bob un am eu cymorth a'u presenoldeb. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd: Llywydd — Beti Daniel, Is lywydd — Angharad Jones, Ysgrifenyddes — Anne-Louise Davies, Is Ysgrifenyddes — Aerona Armitage, Trysoryddes — Gwenda Morgan, Is drysoryddes — Glenys Jones, Gohebydd y wasg — Delyth Davies, Dosbarthwraig y Wawr — Anne James. Diolchodd Beti Daniel i'r llywydd ac i'r swyddogion eraill am eu llafur a'u harweiniad. Cyn mynd adre', cafwyd cwpanaid o de a bisgedi wedi eu darparu gan Glenys Jones ac Angharad Jones.

### Pêl droediwr

Llongyfarchiadau cynnes i Shaun Dryburgh, Maes Melindwr, sydd yn chwarae pêl droed i dîm Iau Bow Street, ar ennill tlws Chwaraewr y Flwyddyn i rai dan dair ar ddeg oed. Da iawn ti Shaun, ymlaen y bo'r nod.





Helfa wyau Cylch Meithrin Pen-llwyn

# GOGINAN

### Apêl yr Urdd 2010

Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Druid i godi arian at Eisteddfod yr Urdd 2010. Cymerwyd y rhan flaenaf gan Huw Evans neu "Huw Banjo" fel yr adnabyddir ef. Chwaraeodd ei gitâr a chanu rhes o ganeuon traddodiadol gan ysgogi llawer oedd yno yn gwrando i ymuno i ganu a dawnsio. Cafwyd unawd sobor o afaelgar gan Llew Evans, mab Huw yn chwarae a chanu "Macsen" sef un o ganeuon Dafydd Iwan, mae Llew yn sicr o fod yn "enw" i'r dyfodol.
Yn ystod y noson cafwyd arwerthiant o amryw roddion oedd wedi ei cyfrannu gan gwsmeiriad a chyfeillion y Druid a chasglwyd £583 at yr achos. Trefnydd y noson, ac hefyd yr arwerthwr, oedd Catherine Morgan a'i theulu. Diolch o galon i Catherine, Lewis a Carlie am gael defnydd o'r Druid ac i bawb arall gefnogodd y noson i greu noson draddodiadol wledig a hwyliog.

### Gwellhad Buan

Braf yw clywed fod Mr. John Roberts, Penbryn adref o Gobowen erbyn hyn ond rhaid ei atgoffa ei fod i orffwys y goes yna am fis o leia. Dymunwn wellhad buan iddo.

### Croeso

Braf yw cael croesawu adref Tom Sant gyda Nadia ei wraig ac Alex ei fab i Ravenscl ough, cartref Ian a Rosemary Sant. Roedd Tom yn ddisgybl yn Ysgol Pen-glais ac mae wedi gweithio am flynyddoedd fel ymchwiliwr daearegwr mewn sawl gwlad dros y byd. Ar hyn o bryd mae yn gweithio i gwmni yn Awstralia yn edrych at bosiblrwydd mwyngloddio metalau o ddyfnderoedd dwfn y môr. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn Brisbane a chyn hir fe fydd y teulu yn cynyddu gan fod Nadia yn disgwyl ei hail blentyn.

Danfonwn hefyd ein dymuniadau gorau i dad Tom, sef Ian Sant, wrth iddo aros i gael mynd i'r ysbyty am lawdriniaeth ar ei galon.



yTincer-Mehefin09.indd 12 16/6/09 11:10:17

# CYNGOR CYMDEITHAS MELINDWR

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymdeithas Melindwr yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor ar yr 21ain o Fai 2009.

Yn bresennol 'roedd Y Cynghorwyr Dafydd Fryer (Cadeirydd), Wynne Jones (Is-gadeirydd), Ceredig Williams, Elizabeth Collison, Bethan Bebb, Aled Lewis, Richard Edwards, Gareth Daniel, Rhodri Davies (Ceredigion) a'r clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Cynghorwyr Arnold Evans a Brython Davies. Nid oedd modd darparu cyfleusterau cyfieithu..

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2008 fel rhai cywir a theg gan y Cynghorwyr Bethan Bebb a Wynne Jones.

Adroddiad y Cadeirydd
Dyma grynodeb y cadeirydd o'r prif ddigwyddiadau a phynciau y mae Cyngor Cymuned Melindwr wedi ymwneud â hwy yn ystod 2008-09:-

Etholiadau Mis Mai:
- Diddorol nodi i etholiad gael ei chynnal yn y plwyf ddechrau eleni. Llwyddodd Aled Lewis a Richard Edwards i gael eu hethol. Llongyfarchiadau iddynt a chroeso mawr i'r pâr cymharol ifanc!
- 'Rydym wedi ffarwelio gydag Eilir Morris wrth iddo ymddeol a hefyd Gwynfor Jones. Bu'r ddau yn gymaint rhan o'r cyngor cymuned am flynyddoedd a bu eu cyfraniad yn hynod werthfawr — diolch i'r ddau am eu gwasanaeth di-flino.
- 'Roedd newid hefyd ar y Cyngor Sir gyda Rhodri Davies yn ennill Melindŵr yn enw Plaid Cymru .Yn barod mae Rhodri wedi bod yn weithgar ar sawl lefel wrth iddo ein cynorthwyo.
- Ac o ganlyniad i hyn rydym wedi ffarwelio gyda Fred Williams ein cynghorydd sir blaenorol. Mae Fred wedi bod yn wyneb cyson yn ein cyfarfodydd dros y flynyddoedd. Diolch iddo am ei holl waith yn cwrso materion gyda'r Sir ar ein rhan.

Parc Busnes Capel Bangor:
- Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i fesur teimladau diweddaraf y gymuned am y cais, wrth ystyried cymaint o amser sydd wedi pasio ers yr un cynt. Roedd yn gyfle i'r ddwy ochr, Ceredigion a'i datblygwyr a hefyd y gwrthwynebwyr, fynegi eu safbwyntiau ar y pwnc dadleuol 'ma.
- Mi aeth y Cynghorydd Sir ati ar liwt ei hun i gynnal holiadur o amgylch y gymuned gyfagos, lle 'roedd y mwyafrif yn bryderus ynglŷn â'r datblygiad.
- Penderfynodd mwyafrif y Cyngor Cymuned gefnogi cais y parc busnes, a maes o law rhoddwyd caniatâd gan y Sir i'r parc fynd yn ei flaen. Y newyddion diweddaraf yw bod y Cynulliad wedi galw'r cais i mewn.

Diogelwch Ffyrdd:
- Mae'n frwydr parhaol llythyru/lobio'r awdurdodau ar faterion sy'n ymwneud â'r A44/A4120 a hynny heb fawr o lwyddiant hyd yma. Rheoli cyflymder cerbydau drwy ein pentrefi yw'r prif gonsyrn. Mae Blaengeuffordd yn dal heb unrhyw gyfyngiad ac mae ymgyrch palmant i gysylltu â Chapel Bangor, yn cynnwys yr ysgol, yn parhau. Rydym wedi gofyn am fan camera achlysurol yng Nghapel Bangor, ond heb lwyddiant eto. Dydy'r cyfyngiadau ym Mhisgah, Pant-y-Crug a Goginan ddim yn dderbyniol chwaith.
- Doedd dim mis yn mynd heibio heb sôn am broblemau ar hyd ein lonydd bach. Er enghraifft - yr angen am fannau pasio (Gwarallt), bocsys graeanu (Cwmbrwyno / Gwarallt), coed yn gwyro a dŵr yn sefyll ar yr heol (Cwmrheidol), tyllau (Aber-ffrwd), dail wrth ochr y lôn a draens wedi eu blocio (Goginan). Manion o bosibl ond heb lygaid y gymuned, gwaith dyfal y clerc a'r cynghorydd sir yn cwrso, efallai na fuasai'r gwaith cynnal a chadw yma yn digwydd.

Amwynderau:
- Mae gwaith glanhau / peintio'r cabanau bws gan dîm cynllun drwgweithredwyr (ac eraill yn y gymuned) bron wedi ei gwblhau. Archebwyd to newydd i'r un yng Ngoginan.
- Galwyd cyfarfod arbennig ym mis Rhagfyr i drafod argymhellion y Sir i ddiffodd goleuadau stryd yn oriau hwyr y nos. 'Roed pryderon, wrth reswm, ond ein barn yw nad oedd gan ein Cyngor yr adnoddau digonol i gymryd drosodd gyfrifoldeb goleuo y Sir. Rydym yn dal i aros gweld gweithrediad y syniad yma.
- Unwaith eto trafodwyd yr angen am gyfleusterau chwarae yn ein cymunedau. Croesawyd Gill Byrne o Ray Ceredigion yn ddiweddar i siarad am ei gwaith drwy'r Sir a chynnig cyngor i ni. Er fod 'na safle addas wedi ei chlustnodi gan y Sir ar bwys neuadd Capel Bangor anodd gweld y ffordd ymlaen gan ei fod ar dir preifat.
- Ail-gylchu oedd un o'r pynciau testun siarad adeg yr etholiad yng Ngoginan. Gyda chynllun newydd yng Nghapel Bangor yn ogystal â'r safle ail-gylchu roedd trigolion yn teimlo nad oedd darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Gyda gobaith bydd Ceredigion yn ymestyn eu gwasanaeth ail-gylchu maes o law.
- Mae cyflwr carthffosiaeth yng Ngoginan wedi amlygu ei hun eto yn ddiweddar. Bydd hyn yn un o'r materion o bwys i edrych arno yn ystod y flwyddyn 2009-10.

Llwybrau:
- Bu i ni ymateb i ymgynghoriad cynllun llwybrau Ceredigion (ROWIP). Roedd yn braf gweld cynllun uchelgeisiol ond byddai'n her cael adnoddau i'w gwireddu.
- Penderfynwyd rhoi ein Cyngor ymlaen i ymuno yn y cynllun newydd o "lwybrau cymunedol". Byddai'n rhaid aros i weld a fu'r cais yn llwyddiannus. Gyda gwaith diweddar y Sir yn yr ardal mae'r arwyddion yn addawol. Mae'r bont newydd dros y Melindwr wrth Ty'n y Bedw yn arbennig. Mae 'na sawl ail-gyfeirio llwybr i osgoi iard fferm ar y gweill; cwblhawyd gwaith ar wella llwybr ceffyl yng Nhoed Troed-rhiwseiri ac mae'r gwaith datrys draeniaid ar Rocky Lane yng Ngoginan ar fin cychwyn.

Cwmnioedd Ynni:
- Bu perthynas agos gan y gymuned bob amser gyda'r gwaith heidro yng Nghwmrheidiol. Daeth Henry Drake o Statkraft (E-ON cynt) i siarad â ni am y ail flwyddyn yn olynol. Gyda enw newydd ar y lle bydd gwedd wahanol gydag arwyddion ac ati ond yr un fydd yr ymrwymiad i'r gymuned.
- Gyda un o safleoedd TAN 8 y Cynulliad yn ardal Nant-y-moch bydd cyfle i gymunedau lleol gynnig am arian tuag at brosiectau cynaliadwy. Gareth Daniel sy'n ein cynrychioli ni ar y grŵp cymunedol Airtricity. Mae codi fferm wynt yn ddatblygiad tymor hir (2012-14) ond bydd angen syniadau ar gyfer prosiectau yn 2009-10.

Cynllunio:
- Mae Ceredigion wedi dechrau ar y Cynllun Lleol. Cyflwynwyd syniadau defnydd safleoedd iddynt yn ôl yn 07-08. Mae'r Sir newydd orffen yr ymgynghoriad cyn-adneuo. Bydd sawl cyfle eto i fwydo i mewn i'r broses bwysig yma wrth i ni hyrwyddo ffyniant ein cymunedau o safbwynt darpariaeth tai, tai fforddiadwy, cyfleoedd gwaith, cyfleusterau hamdden a chynhaliaeth ein hysgol. Mewn egwyddor roedd y Cyngor yn hapus i weld Capel Bangor fel un o'r 29 Canolfan Gwasanaeth Gwledig gyda Goginan a Blaengeuffordd yn Aneddiadau Cysylltiedig.
- Cynhaliwyd gweithdy "hyfforddiant cynllunio" llwyddianus iawn gan Gymorth Cynllunio Cymru yr wythnos hon.

I orffen, fe hoffwn ddiolch i chi, y cynghorwyr, am fynychu'r cyfarfodydd misol drwy gydol y flwyddyn. Hefyd diolch i'r rhai ohonoch sydd naill yn ein cynrhychioli yn allanol neu yn fodlon pori drwy ddogfennau ymgynghori gwahanol gyrff ac adrodd yn ôl i ni. Diolch hefyd i Rhodri, ein cyswllt uniongyrchol gyda'r Sir, am ei frwdfrydedd a chymorth yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Ac yn olaf, ar ran pawb ohonom, gaf i dalu teyrnged arbennig i'r holl waith diwyd mae'r clerc yn rhoi mewn i gynnal ein Cyngor yn effeithiol. Diolch yn fawr iawn Meinir.

Adroddiad y Cynghorydd Sir:
Soniodd y Cynghorydd Sir fod arian ar gael i ddatblygu rhiw Gwarallt gyda'r Cyngor Sir. Bydd yn canolbwyntio ar gael cyflymder traffig ym Mlaengeuffordd, Goginan. Mae'n bwriadu gweithredu ar gael mwy o fannau ailgylchu o fewn yr ardal. Adroddodd y Cynghorydd Sir ei fod am barhau i weithio ar nifer o faterion y mae wedi cychwyn arnynt yn ystod ei flwyddyn gyntaf fel cynghorydd dros yr etholaeth.

Ethol Swyddogion am 2009-2010:
Cadeirydd: Y Cynghorydd Wynne Jones.
Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Gareth Daniel.

Unrhyw fater arall:
Dywedodd y clerc mai ar hap y digwyddodd gael gwybod nad oedd y neuadd ar gael ar gyfer ein cyfarfod misol a'n cyfarfod Blynyddol. Diolchodd y clerc ac ategwyd hyn gan amryw o'r cynghorwyr i'r Cynghorydd Dafydd Fryer am ei waith fel Cadeirydd yn ystod 2008-2009.

## COLOFN MRS JONES

Y mae sawl peth wedi fy nghorddi yr wythnosau diwethaf. Fel chi i gyd, diau, yr wyf wedi rhyfeddu a gwaredu at gostau aelodau seneddol a'u parodrwydd i hawlio hyd eithaf eu gallu dan reolau sydd yn ymddangos yn afresymol o orhael i bobl gyffredin. Mae'n iawn fod rhywun yn cael costau rhesymol am ei waith a hynny ar ben cyflog ond mae medru hawlio am beiriant tostio, bwyd ci a thŷ hwyaid yn eithafol a pha ryfedd bod protest. Y mae'r ateb yn syml, wrth gwrs, darparu bloc neu flociau o fflatiau ar gyfer aelodau seneddol a darparu popeth ar eu cyfer yn ganolog. At hyn, rhoi lwfans teithio penodol ac, os oes gwir angen at bwrpas gwaith, costau aros a theithio ychwanegol. Cau'r til, mewn geiriau eraill, oherwydd gwir y gair fod pob braint yn cael ei chamddefnyddio gan rywun yn y pendraw. A gellid gofalu fod cyhoeddi costau aelodau seneddol yn digwydd bob blwyddyn yn glir ac eglur.

Peth arall sydd wedi fy ngwylltio i yw diofalwch cyson y gwasanaethau cymdeithasol am y plant yn eu gofal. Mi rydw i'n alaru ar gysondeb y straeon am blant a gamdrinir ac a lofruddir ac yn dychryn o sylweddoli cymaint ohonynt oedd i fod o dan ofal eu hawdurdod cymdeithasol. Ac yn dychryn mwy o sylweddoli mai'r un esgusion a roddir dro ar ol tro, prinder adnoddau, pwysau gwaith, diffyg profiad a'r awydd i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ond ai teulu ydech chi'n galw uned o fam a chariad, sydd, efallai,yn dad i'w phlant, lle yr ymroir i lwgu a dyrnu a lladd y plant? Pa hawliau sydd gan rieni o'r fath? Oni ddylid tynnu'r plentyn o'i berygl yn syth? Mae'n wir fod hynny wedi digwydd yn ddisail, weithiau, ac ymchwil wedi dangos mai afiechyd y plentyn oedd yn gyfrifol am ei gyflwr, ond gwell hynny na gadael y plentyn i ddioddef. Fe ffafriwn ni bolisi o weithredu yn syth yma yn hytrach na disgwyl i blentyn farw ac mae'n ymddangos i mi mai dyma a wneir yn rhy aml. Mae gan yr RSPCA yr hawl i dynnu anifail o gartref annigonol ond a yw anifail mewn difrif yn bwysicach na phlentyn? Choeliai i fawr. A thristwch y sefyllfa arbennig hon yw nad yw pethau wedi newid fawr ers canrif a mwy, mae gan anifail well hawliau mewn amgylchiadau bygythiol yn ei garthre na phlentyn ac roedd hi'n ddiddorol darllen mai o dan reolau yn ymdrin ag anifeiliaid y bu'r achos llys cyntaf am gamdrin plentyn yn America a hynny oherwydd nad oedd gan America ar y pryd unrhyw ddeddfwriaeth a ffafriai blant. Mae'n wir mai yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y digwyddodd hyn ac y mae pethau wedi newid ond y mae'r agwedd sylfaenol yn dal yr un fath.

Beth sydd yn gwneud y sefyllfa hon yn ddrwg yw nad oes cosb ar y rhai a fethodd y plentyn.Ystyriwch hanes Baby P. Yr oedd rhai o'r gweithwyr cymdeithasol a oedd ynglÐn â'r achos hwn wedi bod ynglÐn ag achos adfydus Victoria Climie ddegawd ynghynt - ond yn dal yn eu swyddi heb na disgyblaeth nag achos llys. Mae'n wir fod rhai ohonynt wedi colli eu swyddi ar ôl marwolaeth y bychan, ond, hyd y gwn i, nid oes yr un ohonynt wedi wynebu achos llys. Ond fe roeddent, yn eu ffordd, yr un mor euog a rhieni'r plentyn, y rhieni wnaeth y camdrin ond fe'u hyrwyddywd gan agwedd laissez faire yr awdurdod, fe ellid dadlau yn llwyddiannus eu bod wedi cyfrannu at ddioddefaint y bachgen, roedd yma enghraifft dda o wirionedd yr hen air mai trwy ddifeindra a diogi y da y mae drwg yn llwyddo!

Y trydydd peth sydd wedi fy nghorddi yw gwybod pa mor lwcus ydw i o fod yn dal yn fyw i gwyno am bethau.Ac nid geiriau gweigion yw hyn oherwydd dim ond o drwch blewyn y llwyddais i osgoi cael dwy ddamwain ddifrifol yn yr wythnosau diwethaf. A hynny er na wnethum i ddim byd o'i le. Ac y mae gennyf syniad nad y fi yw'r unig un a all ddweud hyn ymysg y bobl sydd yn teithio i Aberystwyth yn rheolaidd. ar hyd ffordd Tŷ Coch. Fe fentraf fod rhai ohonoch yn gwybod yn iawn beth a ddigwyddodd i mi ond rhag ofn bod unrhyw amheuaeth, fe egluraf. Y ddau dro, roeddwn i ochr Penrhyn-coch i bont y rheilffordd pan ddaeth loriau trymion dros y bont ar hald ac, onibai imi dynnu i mewn, buaswn wedi cael fy ngwasgu yn seitan gan y lorri. Pan symudais i i fyw i Benrhyn-coch, yr oedd arwyddion ar y ffordd hon yn dweud nad oedd yn addas i drafnidiaeth drom. Maent wedi diflannu a heb eu hadfer ond y mae gwir angen ei chau i draffig trwm fel bysus a loriau. Ar y gorau maent yn achosi rhwystr oherwydd culni y ffordd a sawl un ohonoch sydd wedi gorfod aros oherwydd fod dwy behemoth wedi cyfarfod yno? Ond ofnaf yn fawr na wneir dim hyd oni ddigwydd y gwaethaf, damwain ddifrifol. Dychweler yr arwyddion a hynny ar fyrder, fe allai achub bywyd rhywun yn llythrennol.

## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Ar ddiwrnod sych a ffafriol cynhaliwyd y Gymanfa Ganu uchod dydd Sul, Mai 10fed, yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth.

Gwasanaeth y plant a'r ieuenctid yn y bore. Y Parchg Richard Lewis, Noddfa, llywydd y pwyllgor ddechreuodd yr oedfa trwy estyn croeso i bawb a'u harwain mewn gweddi cyn croesawu a throsglwyddo y gwasanaeth i ofal Mr Andy Hughes a'i fand, ynghyd â Dafydd Timothy a'r llew direidus. Y peth cyntaf a welwyd oedd lliain yn cael ei osod ar ford y sedd fawr a'r criw yn cael brecwast, pa ryfedd wedi deall eu bod wedi dechrau ar y daith am hanner awr wedi chwech o'r Rhyl. Cyfanswm casgliad y bore oedd £218-13. Fe'i cyflwynir tuag at waith Cyngor yr Ysgolion Sul.

Bu plant y gwahanol ysgolion Sul o gylch y Gymanfa yn adrodd ac actio darnau o'r Beibl, hanes Iesu Grist wedi'r atgyfodiad ac eraill yn canu. Traddodwyd y fendith gan aelod o'r cyfeillion. Gwnaed casgliad yn ystod yr oedfa o £218.13 a'i drosglwyddo i'r Cyngor Ysgolion Sul.

Llywydd yr hwyr oedd y Parchg Judith Morris, Bethel. Dechreuwyd yr oedfa gyda darlleniad o'r ysgrythur gan Mrs Mairwen Jones a gweddi gan Mrs Sandra Beechey y ddwy o Horeb, Penrhyn-coch.

Croesawodd a chyflwynodd y llywydd yr arweinydd gwadd Mrs Carol Davies, Henllan, Llandysul, yn enedigol o Bont-rhyd-y-groes yn gynnes iawn cyn ei galw at ei gwaith.

Roedd pawb wedi cael boddhad yn y canu o dan ei harweiniad medrus. Diolch iddi hi am ein harwain mewn modd mor ystyriol a di-ffwdan.

Canwyd emyn rhif 17, Brynaber a'r geiriau gan Maelwyn "Er Cof" am y cyfeillion a gollwyd yn ystod y flwyddyn.

Yr organydd ar y dydd oedd Mr Ceris Gruffudd, Horeb, hefyd yn y rihyrsals yn cael ei gynorthwyo gan Mrs Mair Evans, Horeb.

Arweinyddion y rihyrsals oedd Mr Alan Wynne Jones, Y Garn a Mr David Griffiths, Seion, Aberystwyth.

Y llywydd a wnaeth y cyhoeddiadau a'r diolchiadau i bawb a fu wrthi yn ddyfal er llwyddiant y dydd.

Traddodwyd y Fendith gan y Parchg Wyn Rhys Morris, Y Garn a chyd adroddwyd y Gras.

TAFARN TYNLLIDIART
Tŷ Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i riant.

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# COLOFNYDD Y MIS



**Cyfres newydd lle bydd rhai a fagwyd yn ardal y Tincer sydd ar wasgar yn cyfrannu colofn.**

## Cathryn Thomas

Mae gen i gyfaddefiad i wneud. Mae fy Nghymraeg wedi gwaethygu i berfeddion dwfn mister gwael. Ers i Ceris holi os faswn i'n hapus ysgrifennu colofn, a finne'n deud "iawn, dim probs", mae yna gysgod trwm, tywyll wedi bod yn fy nilyn. Poeni'n arw gan fy mod wedi llwyr anghofio sut i dreiglo, heb sôn am sut i sillafu'r gair. Corddi am bethe clyfar, dwys a chyfoes i gynal safon uchel y gyfres.

Rwy'n bendant na fydd ct yn llwyddo.

Erbyn hyn mi ydw i wedi bod yn y byd gwaith am dair mlynedd, yn gweithio yn yr adran adnoddau dynol o'r banc llond ceg o Almaeneg. Mae hi'n amser annifyr yn y byd gwaith, a mi ydw wrthi yn cyflwyno penderfyniadau tyngedfenol i'r niferoedd oll sy'n wynebu ansicrwydd dros y misoedd nesa. Mae fy nghroen yn reit drwchus erbyn hyn (twt, idiom Saesneg) ond does yna fawr i fwynhau mewn fath sefyllfa. Rhyfedd o beth ydy bod yng nghanol (ag ynghlwm) â'r dirywiad sy'n drychinebus i niferoedd enfawr. Mi wnai osgoi mwydro am hyn bellach. Yn fy henaint (a doethineb) maith, tydi hi erioed wedi bod mor anhygoel o bwysig i chwilio a chanfod pethe braf y byd.

A felly, dyma fi yn nghanol, ac ynghlwm â fy mywyd. Yn mwynhau cymdogaeth, cyfeillgarwch a chariad fy nghymuned o gyfeillion. Yn manteisio ar anturiaethau diri y ddinas fawr. Yn mentro i fwynhau, a'n mwynhau mentro. Dim ond un picil bach. Mae byw yma'n Llundain, yn gweithredu yn ddyddiol yn yr iaith fain, wedi golygu nad ydw i bellach yn rhugl yn y Gymraeg. Hwylus ydy meddwl am eiriau neu brawddegau Cymraeg nad ydw i wedi eu defnyddio ers amser maith: "y Chwyldro Diwydiannol" er enghraifft. Nid ers gwersi hanes ym mil naw naw wyth ydw i wedi ystyried y fath eiriau. Fedra i brin gofio be wnes i yn ystod lefel A Cymraeg. Aneurin? Taliesin? Mae fy nghof yn methu. Mi ydw i'n teimlo ymhell o'r ct Cymraeg. Ac ymhell o fy mro. Teimlo bellach taw cymdogaeth gyda phobl sy'n bwysig, yn hytrach na lle. Rwy'n sicr mai nid dyma'r neges cywir i rannu efo chi ddarllenwyr ffyddlon y Tincer ond dyma fi. A dyna ni. Mae yna lond byd o bethe difyr, a braf ydy cael cyfle i lenwi peth amser gyda llond barbeciw o bobl a phethe hyfryd. Oes fawr ots os nad ydw i'n cynnal fy Nghymraeg? Yn llwyddo i gyfansoddi cynghanedd? Rwy'n ddig nad ydw i'n medru mynegi fy hun yn iawn yn fy mamiaith, ond oes wir ots? Dadleuol yn wir.

Gwell i mi fwrw ati i'r gwely erbyn hyn. Does gen i fawr o unrhyw beth dwys a chlyfar a chyfoes i rannu. Os y caf rannu un peth, (a chredwch chi fi, os nad oes awydd, peidiwch a thalu un bitw o sylw, does fawr ots gennaf i), peidiwch chi ag anghofio mai braf tu hwnt ydy cael bod, pa bynnag iaith bu hynny.

ct

Colofnydd mis Medi: Seiriol Dafydd

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger 1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwyddedd
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau
Iau a Gwener am brydiau teuluol

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
• Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# ADOLYGIADAU

**Mab a'i mab yn adolygu gwaith mam a'i mab**

**Lleucu Roberts *Annwyl Smotyn Bach* (Y Lolfa) 160 t £5.95**


Llongyfarchiadau mawr i Lleucu Roberts, yn wreiddiol o Landre, ar ennill Gwobr Tir na n'Og 2009 am nofel i blant ysgolion uwchradd. Disgrifiwyd y nofel *Annwyl Smotyn Bach* gan feirniaid y gystadleuaeth fel "nofel rymus a heriol ar gyfer yr arddegau hŷn sy'n rhoi golwg arswydus ar dynged ein gwlad." Mae'r gyfrol yn rhan o Gyfres y Dderwen, sef cyfres o nofelau heriol i bobl ifainc, a gyhoeddir gan Y Lolfa.

Mae'r nofel wedi'i gosod yn 2040 a 2089 ac mae'n adlewyrchu elfennau o waith Islwyn Ffowc Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, oherwydd mae'r ddwy nofel yn rhag-weld dyfodol Cymru a'r iaith Gymraeg.

Llio yw'r prif gymeriad a thrwy gyfrwng ei dyddiadur mae'n siarad â'r 'smotyn bach' sy'n tyfu yn ei chroth.

'Dwi wedi credu ers amser na chawn i byth mohonot ti. Mae'r 'ddeddf boblogaeth' yn datgan nad oes gan yr un ddynes hawl i genhedlu plant wedi'r pymtheg mlwydd ar hugain... Ei heiddo Hi wyt ti, Smotyn bach. Hi ganiataodd dy fodolaeth a Hi fydd yn monitro dy dwf, dy ffyniant, dy ffordd o fyw a'th fynd a dod tra byddi di.'

Cymru 2040 o dan warchae llywodraeth ffasgaidd America sydd yma. Yn 2020, pasiwyd Deddf Iaith Newydd i sefydlu Saesneg fel unig iaith gweinyddiaeth a bywyd cyhoeddus. Mae'r Gymraeg, a'r diwylliant Cymraeg, yn prysur ddiflannu, ond mae Llio a'i ffrindiau'n cyfarfod yn y dirgel i geisio achub eu treftadaeth. Maent yn cynnal ysgol Gymraeg yng nghanol nos (a'i mab, Math, yn un o'r disgyblion) a cheisio achub llyfrau pwysig y genedl. Llosgwyd nifer o drysorau'r Llyfrgell Genedlaethol gan gyrchoedd y llywodraeth. Ond mae'r ymgyrchu yn rhoi bywyd Llio a'i 'smotyn bach' mewn perygl. Mae Geraint, brawd ei ffrind Miriam yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol a chytuna'r ddwy i helpu i warchod y 'llawysgrifau pwysicaf, y trysorau amhrisiadwy', gan gynnwys Llyfr Du Caerfyrddin. Rhaid diogelu hwnnw a'i anfon ar gwch Ifan Tresaith yn nhywyllwch y nos i Iwerddon.



Symuda'r naratif yn ddeheuig o 2040 i 2089, ac mae Llio erbyn hynny'n byw yng nghaethiwed cartref henoed y Snowdonia Population Shelter. Daw Math, ei mab, â'r dyddiadur iddi, a hefyd ei hwyres, Megan. Trwy eu hymweliadau, deallwn nad yw sefyllfa Cymru a'r Gymraeg wedi gwella dim. Ond daw rhywfaint o obaith wrth i Megan, a hithau'n feichiog, fynd ati i ddysgu Cymraeg.

"Bol mawr, Nain!" meddai Megan gan rwbio'i bol yn falch. Mae hi'n magu hyder yn ei siarad, a hynny am ryw reswm yn torri 'nghalon i.

"What will you call you call him or her?" holais.

"Paul if bachgen, Stevie if merch," atebodd Megan. "Or a Welsh name..."

Dyma nofel sy'n sicr o apelio at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a 4 ac oedolion. Mae'n hawdd ei darllen, yn codi cwestiynau dwys am ddyfodol y diwylliant Cymraeg, gwleidyddiaeth a hawliau dynol, ac yn aros yn y cof am amser hir ar ôl troi'r dudalen olaf. Mae cynhesu byd-eang yn golygu na all Llio fynd allan o'r cartref oherwydd cryfder pelydrau'r haul. Ond nofel gyfoes, serch hynny, yw *Annwyl Smotyn Bach*, oherwydd dylanwad y Gymru bresennol, yr amgylchedd, a sefyllfa'r byd ar ôl 9/11 sy'n sbarduno dychymyg byw'r awdur.

Dyma nofel gyntaf Lleucu ar gyfer yr arddegau. Mae eisoes wedi cyhoeddi dwy nofel ar gyfer oedolion, *Troi Clust Fyddar* a *Iesu Tirion*, a bydd ganddi nofel newydd erbyn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, sef *Y Ferch ar y Ffordd*.

**Meinir Wyn Edwards**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD
Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

**Adolygiad 'Medina' gan Eitha Tal Ffranco.**
**Label: KlepDim Trep Pris: £10.99**



Dwy flynedd yn ôl, fe ymddangosodd Eitha Tal Ffranco ar y Sîn Roc Gymraeg am y tro cyntaf efo'u albwm cyntaf Os Ti'n Ffosil, a oedd yn gasgliad gwych o ganeuon doniol a bachog fel Llysieuwyr Rhan Amser a Organ Aur Huw. Ar hyd y ffordd maent wedi cael eu henwebu am Wobr RAP Radio Cymru ac wedi ennill dilyniant mawr. A nawr, o'r diwedd, mae eu hail albwm, Medina, wedi ein cyrraedd, a dyw e ddim yn siomi.

Mae yna 14 cân gyfan ar yr albwm, ac mae'r awyrgylch yn cael ei greu yn syth efo'r trac cyntaf Medina, sydd fel rhyw fath o brolog 1 munud i'r hyn sydd i ddod. Mae'r ail drac ar y gryno-ddisg (y gyntaf lawn) yn swnio fel rhywbeth a ddaeth o'u albwm cyntaf nhw; rhyfedd, weithiau'n ddoniol, ac wrth gwrs, yn hollol hollol wreiddiol.

Am y drydedd gân ar y record, Ac Ar Hynny, mae'r grŵp yn trio math o gerddoriaeth fuasech chi ddim fel arfer yn cysylltu efo'r band o gwbwl: baled. Ond mae'n rhaid dweud, maen nhw'n gwneud job dda arni, ac mae'r piano yn y cefndir yn swnio'n hyfryd. Mae angen nodi mai hwn yw albwm cyntaf dwyieithog Eitha Tal Ffranco, ac mae cân #5 yn gwbwl Saesneg. Charlotte Can't You See yw un o'r caneuon gorau ar y CD, gydag atseiniau o Gorky's yn eu cyfnod mwyaf disglair.

Y gân orau ar Medina yn fy marn i yw'r gân olaf, Dwi'n Gwybod Lle Mae Dy Fam Yn Siopa, sydd yn arddangos popeth sy'n dda am Eitha Tal Ffranco. Mae'n ddoniol iawn, yn eithaf upbeat, yn fachog ac yn hollol random (geiriau cyntaf y gân yw "Dwi'n gwybod lle mae dy fam di'n siopa / Gwelais i hi ddoe / Roedd hi'n actio'n od a rhoi ar bach o sioe", gydag lleisiau cefndir barbershop quartet-aidd).

Ar y cyfan, mae hwn yn albwm llawer mwy aeddfed na'r un cyntaf. Does dim gymaint o ganeuon ar yr un yma sy'n debygol o ddod yn hits anferth fel Organ Aur Huw neu 50p ar yr albwm diwethaf, ond rydw i'n meddwl ei fod e'n llawer gwell yn "gerddorol". Mae'r CD yn becyn neis iawn hefyd: mae'r clawr yn wych ac mae yna lyfryn hyfryd lliwgar sydd yn cynnwys geiriau'r caneuon i gyd a lluniau da.

****

**Dylan Huw Edwards**

**RHODRI JONES**
**Brici a chontractiwr adeiladu**
**07815 121 238**
**Gwaith cerrig**
**Adeiladu o'r newydd**
**Estyniadau Patios**
**Waliau gardd**
**Llandre Bow Street**

Y TINCER

# Gweinidog yn agor llwybr pos anifeiliaid i ddathlu Wythnos Bioamrywiaeth Cymru

Agorwyd llwybr pos anifeiliaid newydd i helpu ymwelwyr i ganfod amrywiaeth gyfoethog bywyd gwyllt y coetir ym Mwlch Nant-yr-Arian ger Goginan gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson ddydd Llun, 8 Mehefin.

Aeth Ms Davidson am dro ar hyd y llwybr gyda phlant ac athrawon o Ysgol Gynradd Cwmpadarn, Llanbadarn Fawr wrth i ganolfan boblogaidd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynnal ei dathliad mwyaf erioed o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, sy'n para o 6 tan y 14 o Fehefin.

Agor y llwybr oedd uchafbwynt rhaglen lawn digwyddiadau cyffrous yn y ganolfan goedwigaeth i roi i bobl o bob oed y cyfle i ddysgu mwy am fywyd gwyllt yng Nghymru.

Gyda thaflen ddwyieithog newydd ac arni 14 o gliwiau cryptig helpodd Ms Davidson y plant, rhwng pedair a chwech oed, i ddatrys pa rai yw'r anifeiliaid sydd i'w cael ar hyd y llwybr, sydd yn cydredeg ag ochr y llwybr pob gallu wrth ochr y llyn — gan ei wneud yn agored i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phlant gyda phlant mân mewn cadeiriau gwthio.

Dywedodd Ms Davidson, "Mae'r llwybr pos anifeiliaid hwn yn ffordd anhygoel i godi chwilfrydedd y plant a'u cael allan i ganfod y dewis enfawr o fywyd gwyllt sy'n ymgartrefu yn ucheldir Ceredigion, yn ogystal â'r planhigion a'r blodau prin.

"Mae Nant-yr-Arian yn cynnig cyfle gwych i archwilio byd natur neu ddim ond cael blas ar dro bach i'r teulu mewn amgylchoedd syfrdanol — ac, ar wahân i gost parcio'ch car, mae'r cyfan am ddim."

Lansiodd Ms Davidson hefyd gyfres newydd o lyfrau tywys Crwydro Cefn Gwlad dwyieithog a gynhyrchwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a chyflwynodd eu copi eu hunain i'r plant a'r athrawon.

Trefnwyd y diwrnod gan goedwigwr hamdden CC Cymru, Gareth Owen, mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Ceredigion.

Cafodd y bobl ifanc y cyfle i ennill pob mathau o wobrau cyfeillgar i'r amgylchedd mewn cyfres o gystadlaethau am ddim yn ystod penwythnos 6 a 7 Mehefin, ac mae yna drochi yn y llyn a gwylio adar, yn ogystal ag arddangosfa arbennig yn dangos bywyd gwyllt lleol, drwy gydol yr wythnos.

Roedd taflenni gan CC Cymru, y RSPB ac Ymddiriedolaeth Barcud Coch Cymru a nifer o gyrff eraill ar gael ar arddangosfa bioamrywiaeth yn y ganolfan ymwelwyr - ac mae sioeau bwydo'r barcutiaid coch bob dydd sydd ymlaen drwy'r flwyddyn yn parhau i swyno'r ymwelwyr.

Cyfarfu Ms Davidson hefyd â Leanne Bird, cydlynydd LBAP Ceredigion, a Gethin James, Hyrwyddwr Partneriaeth Bioamrywiaeth LBAP, o Gyngor Sir Ceredigion a roddodd wybodaeth am fioamrywiaeth i'r plant.

Mae Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yn wythnos flynyddol o ddigwyddiadau ar themâu bywyd gwyllt a gynhelir dros Gymru gyfan sy'n anelu at ysbrydoli pobl a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyflwyno neges gadarnhaol am fioamrywiaeth. Mae mwyafrif mawr y digwyddiadau yn rhad ac am ddim ac amrywiant o deithiau cerdded tywysedig byr mewn gwarchodfeydd natur a threfi at ffeiriau mawr lle bydd miloedd o bobl yn dysgu am fioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Trefnir digwyddiadau mewn partneriaeth, gan ddwyn ynghyd grwpiau bioamrywiaeth lleol a chyrff amgylcheddol, a chydlynir hwy gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Gethin James, yr Aelod o Gabinet Cyngor Sir Ceredigion gyda chyfrifoldeb am Wasanaethau'r Amgylchedd a Thai, "Mae hi'n bwysig bod diddordeb plant a'u hymwneud â bioamrywiaeth yn cael ei annog o oedran cynnar. Y nhw yw'r rhai fydd yn edrych ar ôl ein planed yn y genhedlaeth nesaf. Os byddant yn parchu bywyd gwyllt a'i werth yna, gobeithio, byddant am ei fwynhau a'i warchod. Po fwyaf maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau fel hyn, y mwyaf ymwybodol ac wedi'u hysbrydoli y byddant."





yTincer-Mehefin09.indd 17
16/6/09 11:06:54

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig nos Fawrth, 19 Mai, gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd pum cynghorydd yn bresennol ynghyd â'r Clerc; derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gwenan Price, Kari Walker, Tegwyn Lewis, Daniel Jones a Melfyn Evans. Llongyfarchwyd Edwina Davies ar ddathlu ei phen blwydd yn 70 oed, a chyflwynwyd basgedaid o flodau iddi ar ran y Cyngor fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwasanaeth maith a pharod i'r Cyngor ac i'r gymuned yn ehangach.

Yn ei adroddiad ar y flwyddyn, cyfeiriodd y Cadeirydd at nifer o faterion. Roedd datblygiadau wedi digwydd o ran goleuo'r llwybr newydd i Ysgol Penrhyn-coch drwy'r cae chwarae; goleuadau rhybuddio ac arwyddion 20mya wedi'u gosod ger yr ysgol; cyfyngiad 40mya wedi'i sefydlu hyd at groesffordd Gogerddan a chyfyngiad 50mya ar y briffordd o boptu'r groesffordd; ymwelodd y Gweinidog Materion Gwledig â Phen-bont i weld cyflwr y ffordd yn y fan honno. Siomwyd y Cyngor pan werthwyd Tŷ'r Ysgol Trefeurig heb unrhyw ymgynghori lleol, ond roedd gobaith y gallai'r ysgol barhau fel canolfan i'r gymuned. Roedd map o'r gymuned wedi'i ddiweddaru a'i ailosod ar sgwâr y Penrhyn. Byddai'r Cynllun Datblygu Lleol a'r bwriad i godi fferm wynt ger Nant-y-moch yn sicr o effeithio ar yr ardal i'r dyfodol.

Melfyn Evans oedd yr Is-gadeirydd yn 2008/09, ond oherwydd pwysau gwaith nid oedd yn awyddus i gael ei ddyrchafu i'r gadair ar gyfer 2009/10. Cynigiwyd fod y Cadeirydd presennol yn aros am flwyddyn arall, a bod Trefor Davies yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd, a chytunwyd i hyn.

Dewiswyd yr aelodau canlynol yn gynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff lleol ar gyfer 2009/10: Neuadd y Penrhyn — Gwenan Price (Pwyllgor y Neuadd), Kari Walker (Y Gweithgor); Cae Chwarae y Penrhyn (PATRASA) — Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont — Trefor Davies; Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig — Richard Owen; Cartref Tregerddan — Gwenan Price a Dai Rees Morgan; Un Llais Cymru — Richard Owen a Kari Walker; Canolfan Rhoserchan — Daniel Jones; adroddiadau i'r wasg — Richard Owen.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd cyfarfod busnes byr. Adroddwyd fod trefniadau mewn llaw i'r arosfannau bysus gael eu glanhau yn y dyfodol agos. Penderfynwyd cwyno i Gyngor Ceredigion nad oedd trigolion Pen-bont wedi cael gwybod yn iawn pa bryd y bwriedd cau'r ffordd ym Mhen-bont ar gyfer ei thrin.

Adroddodd Mervyn Hughes fod Llywodraethwyr Ysgol y Penrhyn wedi penodi Dirprwy Bennaeth newydd yn ddiweddar. Cytunodd Dafydd Sheppard i fynd i gyfarfod a drefnid gan Shelter Cymru ym mis Mehefin.

Roedd Cyngor Ceredigion wedi rhoi gwybod fod y cyfnod ymgynghori ar gyfer trafod ceisiadau cynllunio yn gostwng o 21 diwrnod i 14 diwrnod o 1 Mehefin ymlaen. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cadeirydd i benderfynu sut i symud ymlaen pan fyddai hyn yn achosi anhwylustod o ran amserlen cyfarfodydd y Cyngor. Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol: tir ger Y Gelli, Penrhyn-coch, amrywio amod - dim sylwadau; 69 Ger-y-llan, Penrhyn-coch, estyniad — dim gwrthwynebiad. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 16 Mehefin yn Neuadd y Penrhyn. Gellir gweld y cofnodion llawn ar www.trefeurig.org.

**Gala Nofio'r Sir**
Cynhaliwyd Gala nofio'r Sir eleni ar Nos Wener y 17eg o Ebrill ym mhwll nofio Aberaeron. Llongyfarchiadau i'r clwb buddugol eleni, sef Pennant.

C.FF.I. CEREDIGION
www.yfc-ceredigion.org.uk

**Diwrnod Maes Cymru**
Cynhaliwyd Diwrnod Maes Cymru yn Ynys Môn eleni ar y 24ain o Ebrill. Dyma'r canlyniadau:-
Menna Davies, Dihewyd yn ennill Stocmon Hŷn
2il Tîm Stoc Hŷn sef
Menna Davies, Dihewyd; Eleri Jones Tregaron; Steffan Davies, Llanwenog ac Emyr Jones, Mydroilyn
3ydd Sialens ATV - Rhodri Hopkins a Dyfan Jones, Llangwyryfon
Llongyfarchiadau i bawb gan sicrhau fod Sir Ceredigion wedi dod yn 4ydd ar ddiwedd y dydd.

**CereGIGion**
Trefnwyd Gig fawr ar Nos Wener 24ain o Ebrill ym Mhafiliwn Bont gydag amryw o fandiau - Gwibdaith Hen Frân, Fushanti, Yr Ods, Enillwyr Brwydr y Bandiau.
Cafwyd noson lewyrchus gydag elw'r noson ym mynd tuag at Eisteddfod yr Urdd 2010 ac Apêl Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.

**Arwyddion Rali**
Ar y 1af o Fai cafodd arwyddion clybiau'r Sir eu datgelu mewn amryw o lefydd er mwyn hysbysu digwyddiad y Rali. Lliwgar a Deniadol yn wir!

**C.C.B. NFYFC**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol NFYFC ar benwythnos 3 - 5 o Fai yn Blackpool eleni. Aeth criw o Sir Geredigion i gynrychioli'r sir. Cafwyd penwythnos da o dan y thema 'Super heroes'.

**Clwb 200**
Dyma enillwyr clwb 200 mis yma:
1af - David Davies, Maesydelyn, Aberaeron
2il - Mrs H M Davies, Maesronw, Llandysul
3ydd - Rhys Evans, Y Cwm, Aberteifi

Blaen rybudd o Ddigwyddiadau'r Sir
Mehefin 19 - Tynnu'r Gelyn yng Nghlwb Rygbi Aberaeron
Mehefin 21 - Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Aberaeron
Mehefin 22 - Athletau'r Sir yn Ysgol Uwchradd Llambed
Mehefin 28 - Chwaraeon Cymru yn Aberhonddu

## YSGOL GYFUN PENWEDDIG

Bydd **Mr Arwel George**, Y Pennaeth
yn gadael ar ddiwedd y tymor yma wedi 20 mlynedd o wasanaeth.
Os hoffech gyfrannu at dysteb Mr George
cysylltwch â Mrs Jen Evans
yn swyddfa Penweddig neu ar **07773958811**
erbyn Dydd Llun, Gorffennaf 6ed

APÊL YSGOL PENRHYN-COCH / TREFEURIG I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU, CEREDIGION 2010

# OCSIWN
Clwb Pêl-Droed Penrhyn

Nos Wener, 3 Gorffennaf. 8 y.h.
6 – 8 y.h. Cyfle i weld yr eitemau
Manylion Pellach:- Ysgol Penrhyn-Coch 01970 828566
6 – 8 - Disgo Plant
*Elw i'r ysgol ac apêl Trefeurig*

# ‘BHS Trec y Gaeaf’ Dim Rhwystr i Rheidol George

Roedd deg ar hugain o gystadleuwyr yng Nghanolfan Farchogaeth Rheidol, Rhiwarthen, Capel Bangor dydd Sul 22 o Chwefror yn cystadlu yng nghystadleuaeth ‘BHS (British Horse Society) Trec y Gaeaf’, a oedd wedi'i noddi gan Kelly Marks.

Mae Kelly Marks yn adnabyddus trwy'r wlad am ddatrys problemau ceffylau. Bu'n Bencampwr Ewropeaidd fel Lady Jockey ac yn ‘show jumper’. Cafodd ei hyfforddi gan Monty Roberts, a hi greodd ‘Intelligent Horsemanship’, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a thriniaeth deg i geffylau.

Mae ‘BHS Trec y Gaeaf’ wedi profi'n boblogaidd iawn hefo cystadleuwyr trwy'r wlad, ac mae'n cynnwys dwy o'r tair elfen cystadleuaeth llawn BHS Trec - Rheoli Camau (CoP) - ble mae'r ceffyl a'i farchog yn gorfod hanner carlamu mor araf ag sy'n bosib, a cherdded mor gyflym ag sy'n bosib (h.y. yn groes i beth sy'n dod yn naturiol i'r ceffyl, i brofi rheolaeth y marchog), heb gwympo i mewn i gam arall e.e. trotian, ar hyd coridor o leiaf 50m o hyd; a'r Cwrs o Rwystrau PTV (Obstacle Course) - sy'n cynnwys 10 o rwystrau sy'n debyg i'r rheini gall eu chwilio tra'n allan yn hacio. Yn y Rheidol, gorfu i'r cystadleuwyr ddelio hefo coridor o droadau, cerdded y ceffyl yn ei ôl, pont bren, ffos fach (i dywys a marchogaeth y ceffyl drosti), sefydlogi'r ceffyl, dringo'n ôl ar y ceffyl, canghennau isel, coridor llym a tros i'w cwblhau. Cafodd y gystadleuaeth ei chynllunio i fod yn gyflwyniad braf i'r chwarae BHS Trec.

Cafodd cystadleuaeth y Rheidol ei threfnu gan Eifion ac Amanda Roberts, sydd wedi bod yn gystadleuwyr brwd o BHS Trec am tua tair blynedd; a'i chefnogi gan Iola Evans o Ganolfan Farchogaeth y Rheidol. Rhoddwyd y cystadleuwyr mewn dau ddosbarth - un i newydd-ddyfodwyr (sef marchogwyr oedd heb gymryd rhan mewn mwy nag un gystadleuaeth lawn o BHS Trec, a heb ennill unrhyw ddosbarth BHS Trec y Gaeaf cyn 1/10/08) ac Agored (i'r rheini oedd gyda mwy o brofiad o BHS Trec) - cafodd y pencampwyr o'r ddau ddosbarth gopi o un o lyfrau Kelly Marks, wedi'i arwyddo ganddi, a rhoddwyd rosettes arbennig i'r sawl oedd yn chweched. Cafodd y rhain eu cyflwyno i'r enillwyr gan Wendy Davies, Swyddog Datblygu'r BHS i Gymru. Bu Wendy hefyd yn treulio'r prynhawn gyda'r cystadleuwyr yn egluro rôl y BHS yn llesiant i geffylau, mynediad i farchogwyr, diogelwch, a hyfforddiant, ac egluro'r manteision o fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

Rhoddwyd holl ganlyniadau'r cystadleuwyr mewn tabl cenedlaethol sy'n cael ei gynnal a'i ddiweddaru i'r ddau ddosbarth gan y BHS (sy'n cael eu rhestru ar wefan y BHS, www.bhs.org.uk). Ar ddiwedd y tymor, bydd y pencampwr buddugol o bob dosbarth yn derbyn cwpan gan y BHS, a'r 10 marchogwr uchaf ar y rhestr yn derbyn gwobr yr un. Yn union ar ôl y gystadleuaeth, roedd enillwyr y Rheidol Annette Musker a Rheidol George yn bumed yn y Dosbarth Newydd-ddyfodwyr cenedlaethol, a Jane Williams hefo Joint Affair yn nawfed yn y Dosbarth Agored.



**CANLYNIADAU'R RHEIDOL:** Newydd-ddyfodwyr - 1af Annette Musker ar Rheidol George, 2il Helen Williams ar Chester, 3ydd Donna Rooney ar Blue, 4ydd Heather Thornton ar Rheidol Zigi, 5ed Joanne Spence Wilson ar Rheidol Brennig, 6ed Sian Southgate ar Rheidol Noddy. Agored - 1af Jane Williams ar Joint Affair, 2il Cath Cromarty ar Twiggy, 3ydd Heather Thornton ar Rheidol Zigi, 4ydd Caroline Jones ar Gwynfor, 5ed Evan Jones ar Gareth, 6ed Ivor Wynn Jones ar Cello.

Dod yn 10fed allan o 546 o Gystadleuwyr ar y Cais Cyntaf! Ie — dyna oedd hanes Annette Musker, enillydd y dosbarth newydd-ddyfodwyr yng nghystadleuaeth BHS Trec y Gaeaf y Rheidol, yn genedlaethol — unwaith y rhoddwyd holl ganlyniadau'r cystadleuwyr i gyd o Gymru, Lloegr a'r Alban yn nhabl cenedlaethol y BHS.

Partner Annette oedd Rheidol George, a oedd, pan yn iau, yn gystadleuwr brwdfrydig mewn llawer o gampau hefo'i berchennog Iola Evans, ac mae ar hyn o bryd yn un o ffefrynnau llawer o gwsmeriaid y Ganolfan Farchogaeth.

Paratôdd Annette a Rheidol George ar gyfer y gystadleuaeth wrth fynychu'r sesiwn hyfforddi yn y Rheidol ar y 15fed o Chwefror, a bu hyn yn ddigon i'w cais cyntaf ar yr 22ain yn y Rheidol i roi perfformiad pen ei gamp, hefo cyfanswm o 124 o bwyntiau, i gynnwys pwyntiau llawn ym 5 o'r 10 Rhwystr PTV.

Gwahoddwyd Annette i Seremoni Gwobrwyo Trec y BHS yn Kenilworth ar Nos Sadwrn y 4ydd o Ebrill i dderbyn ei gwobr am ei huchelgais, ond yn anffodus ni fedrai fynychu'r seremoni oherwydd ymrwymiad blaenorol. Roedd gwobrau'r Trec y Gaeaf yn cael eu cyflwyno i'r pencampwyr gan Kelly Marks ei hun.

Mae hyn felly'n profi — d'yw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu triciau newydd i'ch ceffyl — yn enwedig hen ddyn proffesiynol fel Rheidol George!!

## CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

Bydd Mrs Edwina Davies yn gadael y cylch ar ddiwedd y tymor yma ar ôl 34 o flynyddoedd. Os hoffech gyfrannu at dysteb Mrs Davies cysylltwch â Mrs Sarah Evans, cadeirydd y cylch ar 01970 828355 neu ffôn symudol 07743668582.

# Buddug James – Brenhines y Ddrama!

B.J. — Dwy lythyren yn unig ac roedd caredigion byd y ddrama yn adnabod y gwrthrych yn iawn! Doedd dim angen rhagymadroddi rhywsut, sioe un fenyw oedd Buddug! Roedd hi'n byw ac anadlu'r ddrama ac yn wir gellir dadlau mai hi oedd y ddrama — ac ar sawl achlysur roedd y perfformans yn digwydd cyn i neb o'i chriw ymddangos ar y llwyfan!

Ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol cyhoeddir cyfrol o hel atgofion gan drawsdoriad o bobl - o'r hen i'r ieuainc, o'r werin i'r ysgolheigion, o'r de i'r gogledd — pobl y bu i Fuddug gyfoethogi eu bywydau ar rhyw gyfnod, ac oes mae yma lond gwlad o droeon trwstan, straeon lliwgar, cyfrif i ddeg ar brydiau, ond yn anad dim gwerthfawrogiad o gael bod yn ei chwmni. Diolch B.J. am roi'r blas ar y pethe!

Ei rhoi sy' heddiw'n parhau — ei hynni
A'i henaid drwy'r sgriptiau
a erys, ac mae'r geiriau'n
Ennyn tân yn ein to iau.

Bydd copïau ar werth yn lleol (aelodau'r Garn, Cwmni Licyris Olsorts) neu yn eich siop lyfrau.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y
gorau ym Mhrydain

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Yn ystod mis Mai roedd Cynulliad Cenedlaethol yn dathlu deg mlynedd ers iddo gael ei sefydlu. Roedd yr achlysur hefyd yn cofnodi fy mod wedi cael y fraint o gynrychioli trigolion Ceredigion fel Aelod Cynulliad yr ardal ers deg mlynedd. Ers 1999, mae penderfyniadau mewn meysydd megis iechyd, addysg ac amaethyddiaeth yn cael eu gwneud yng Nghymru ac rwy'n falch iawn ein bod ni yn Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu polisïau sy'n rhoi anghenion pobl Ceredigion a Chymru yn gyntaf.

Yn ogystal â'r Cynulliad, roedd Marchnad Ffermwyr Aberystwyth hefyd yn dathlu degawd ers iddi gael ei sefydlu yn ystod mis Mawrth ac fe ymunais â'r trefnwyr ar ymweliad â'r farchnad yn ddiweddar. Mae'n farchnad sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi ysgogi marchnadoedd cyffelyb i sefydlu mewn nifer o drefi eraill Ceredigion. Rwy'n falch gweld bod ein Marchnadoedd Ffermwyr yn parhau i fynd o nerth i nerth ac rwy'n sicr bod pobl yn falch iawn o gael y cyfle i brynu bwydydd ffres a lleol yn syth o'r cynhyrchwyr.

Ymwelais ag Ysgol Gynradd Mydroilyn yn ddiweddar i gwrdd â'r staff a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn un o nifer yng Ngheredigion sydd wedi derbyn canlyniadau da yn dilyn arolygon yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hi'n felly'n braf iawn i gael cwrdd â'r disgyblion ac esbonio fy ngwaith fel Aelod Cynulliad yr ardal iddynt.

Yn olaf, mynychais ddathliadau aduniad Ysgol Gynradd Cwmystwyth yn ddiweddar. Er i'r ysgol gau bron i hanner canrif yn ôl, roedd nifer o'r cyn disgyblion wedi dychwelyd i'r ardal ar gyfer yr aduniad er mwyn rhannu atgofion melys. Yn ogystal, fe fynychais yr Eisteddfod flynyddol ym Mhontrhydfendigaid. Roedd y cystadlu o'r safon uchaf unwaith eto eleni gyda nifer fawr o gystadleuwyr lleol yn rhagori.

## Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Ceredigion 2010

Yn ystod yr wythnos 21ain - 24ain o Ebrill, bu disgyblion di-ri yn y Sir yn dathlu'r ffaith taw blwyddyn sydd i fynd hyd nes bydd Eisteddfod Ceredigion 2010 yn Llanerchaeron! Bu nifer o ddisgyblion yn ymuno mewn Jambori ym Mhontrhydfendigaid ac yn Llangrannog! Bu Mistar Urdd yn ymuno yn y miri, ynghyd â sawl cymeriad o "Bentre' bach." Gwenda Owen oedd yng ngofal y Jambori a phawb yn dawnsio a chanu. Comisiynwyd cân newydd yn arbennig ar gyfer Ceredigion - cân a fydd yn atsain drwy Geredigion yn ystod y flwyddyn nesaf. Os glywch "Cân Ceredigion 2010" ar hyd y Sir gallwch ymuno yn y gytgan!

"Baneri ym mhob man ar hyd y ffyrdd
Yn lliwio'r ffordd i faes yr Urdd
Bydd Llanerchaeron yn goch, gwyn a gwyrdd
Y meysydd mwyn y tylwyth teg
Bydd na groeso mawr a chwarae teg
Yng Ngheredigion 2010"

Yn ystod yr wythnos bu nifer o gerddwyr profiadol yn cerdded o amgylch arfordir Ceredigion - gan gychwyn ym Mhontrhydfendigaid - parti yn anelu am y gogledd, ac un arall am y de, gan dderbyn anogaeth a chymorth gan gerddwyr o gwmpas y Sir, gan dderbyn cwmni sawl Ysgol ar hyd y ffordd. Erbyn dydd Gwener, roedd y cerddwyr yn ymuno â'r Jambori yn Llangrannog, er mwyn gweld y rhestr testunau yn cael ei chyflwyno! Ac mae allan yn y siopau nawr - os ydych am gopi!

Cynhaliwyd gig ar y 24ain ym Mhontrhydfendigaid gyda "Gwibdaith Hen Fran", "Yr Ods" a "Ffwshanti" yn chwarae. Cafwyd noson brysur iawn yn y Pafiliwn - a nifer wedi tyrru yno i gefnogi.

Mae nwyddau 2010 Ceredigion dal ar werth - pensiliau, peli rygbi, beiro, calendrau. Ac wrth gwrs mae jygiau Lowri Davies yn parhau i werthu. Bellach, mae'r lluniau sydd ar y jygiau ar werth ar gardiau post - chwe charden am £5 yn dangos golygfeydd godidog yn chwech chylch Ceredigion! Craig las - Aberystwyth, Prifysgol Llambed, Pont Llandysul, Y Sgwâr Tregaron, Llanerchaeron a Llangrannog! Trysorau o luniau a werth cael gafael yn gopïau!

### Eisteddfod 2009

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Bae Caerdydd a llongyfarchiadau arbennig i'r rai a gafodd lwyddiant. Efalle i chi weld cyflwyniad Eisteddfod Ceredigion 2010 — yn gwahodd gweddill Cymru atom y flwyddyn nesaf. Roedd yna dipyn o gynnwrf ar lwyfan ac yn theatr Donald Gordon! Gwych!




Ensemble offerynnol hyn Penweddig ddaeth yn 3ydd Gareth Owen, Tomos Davies, Rhydian Phillips, Eilyr Pryse, Huw Evans, Iwan Williams, Ffion Lewis, Gwydion Jones, Elin Huxtable.



Y Côr SATB o Ysgol Gyfun Penweddig ddaeth yn ail

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Taith Gerdded Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd

Dydd Mercher 22 0 Ebrill bu disgyblion Cyfnod allweddol 2 yr Ysgol yn cyd gerdded ar hyd yr arforddir fel rhan o ymgyrch cyhoeddi'r Eisteddfod yng Ngheredigion. Cafodd y disgyblion bleser yn cydgerdded a mwynhau sgwrs wrth ymlwybro fyny ar hyd y traeth yn y Borth.

### Ymweliad Glan-llyn

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau tri diwrnod o weithgareddau yn Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn, gyda disgyblion Blwyddyn 6 Comins-coch, Padarn Sant a Phenrhyn-coch..

### Mentergarwch

Bu disgyblion y dosbarth babanod yn coginio cacennau i'w gwerthu er mwyn codi arian i brynu adnoddau i'r dosbarth. Gyda help Wendy'r gogyddes coginiwyd dros 200 o gacennau blasus. Wrth werthu ar ddiwedd y dydd gwnaed elw o £40. Da iawn chi blant.

### Diwrnod Garddio

Ar Ddydd Sadwrn gwyntog daeth criw o rieni, disgyblion ac aelodau o'r gymuned i dacluso a garddio yn yr Ysgol. Cafwyd cefnogaeth dda , a bu i bawb fwynhau diwrnod cymdeithasol. Diolch i bawb am gefnogi.

### Clwb yr Urdd

Mae clwb yr Urdd wedi bod yn brysur yn ystod y tymor. Mae'r disgyblion wedi cael pleser yn ymwneud â gwahanol weithgareddau difyr, ymysg y rhain oedd plannu blodau i ardd yr ysgol, gwneud cerfluniau ar y traeth, ac ymchwilio i fyd natur ar y traeth..



Dosbarth y babanod yn ymweld a'r Bad Achub yn y Borth.

### Ymweliad â'r Bad achub

Bu disgyblion y dosbarth babanod yn ymweld â'r Bad Achub yn y Borth. Bu Peter Davies yn eu dysgu am ddiogelwch ar y môr a chawsant gyfle i wisgo'r dillad ac eistedd yn y cwch.. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.

---

S t o r i H y s b y s e b u

# Bydd fferm wynt Nant y Moch yn hwb i gymunedau lleol




Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad
**Fferm Wynt Nant y Moch**
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
**Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd**
Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 11yb – 2yh:
**Y Plas, Machynlleth**
Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
**Ystafell Haearn, Ffwrnais**
Dydd Iau 18 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
**Neuadd Penrhyn-coch**
Dydd Gwener 19 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
**Neuadd Goffa Tal-y-Bont**

Croeso cynnes i bawb.
Cyfle i wybod mwy am y cynllun.
**www.ffermwyntnantymoch.com**



*Eluned Lewis*

Gallai cymunedau o amgylch Fferm Wynt Nant y Moch, os aiff y cynllun yn ei flaen elwa o gymaint â £420,000 mewn taliad cychwynnol cyn y gwaith adeiladu ac yna dros £280,000 y flwyddyn wedi i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. Golyga hyn o leiaf £7.5 miliwn dros fywyd disgwyliedig y cynllun yn ogystal â swm ychwanegol yn seiliedig ar gynhyrchiant y fferm wynt.

Mae Airtricity hefyd yn gobeithio y bydd cymunedau lleol yn gallu prynu un o'r tyrbinau, neu o leiaf yn cael gwerth un tyrbin o gyfranddaliadau.

"Byddwn, wrth gwrs, yn gwahodd pawb lleol i ddod â syniadau eraill ar gyfer cronfeydd cymunedol," meddai Swyddog Cyswllt Cymunedol y cwmni, Eluned Lewis.

## Y ffeithiau

Byddai Fferm Wynt Nant y Moch yn ychwanegu at draddodiad hir yn lleol o gyfrannu at ynni gwyrdd.

Roedd cronfa Nant y Moch ei hun yn rhan o gynllun cynharach i gynhyrchu trydan glân – agorwyd Gorsaf Bwer Dŵr Rheidol yn yr 1960au.

Mae dwy fferm wynt arall - Mynydd Gorddu a Rheidol – ymhlith y rhai cynharaf yng Nghymru a chafodd ardal Nant y Moch ei dewis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn un o'r rhai gorau ar gyfer ynni gwynt.

Os bydd y cynllun yn digwydd, gall pobl leol fod yn falch o wybod y bydd y fferm wynt yn cynhyrchu digon o drydan gymaint â'r angen trydan hyd at 65,000 o dai.*

* wedi ei seilio ar ddefnydd ynni cyfartalog o 4.7MWawr gan bob tylwyth bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Fferm Wynt Nant y Moch, cysylltwch ag Eluned Lewis, Swyddog Cyswllt Cymunedol, Airtricity, Swyddfa 101, Y Plas, Machynlleth, Powys SY20 8ER.
**Symudol: 07814 020097 Ffôn: 01654 702720 E-bost: eluned.lewis@airtricity.com www.ffermwyntnantymoch.com**

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Gwasanaethau Arbennig

Er mwyn dathlu Neges Ewyllys Da eleni cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn neuadd yr ysgol gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth y plant o'r Neges Heddwch sydd bellach yn draddodiad blynyddol ers dros hanner canrif. Eleni gwrandawodd y plant ar CD a gafodd ei ddanfon i'r ysgol yn arbennig ar gyfer Diwrnod Ewyllys Da er mwyn egluro hanes a thraddodiad y neges bwysig hon. Prif eiriau'r neges eleni oedd brwydro yn erbyn effaith newid hinsawdd a chynhesu byd eang.

## Dewi Pws

Bu bechgyn blwyddyn 5 yn ffodus iawn yn ddiweddar o gael eu gwahodd i lyfrgell y dre i gwrdd â Dewi Pws. Pwrpas yr ymweliad oedd i godi ymwybyddiaeth y bechgyn o ddarllen a'r hwyl a geir o lyfrau yn gyffredinol. Cafodd y bechgyn sesiwn hwylus a diddorol dros ben.

## Beicio

Llongyfarchiadau mawr i flwyddyn 6 am gwblhau hyfforddiant cwrs beicio a diogelwch ar y ffordd. Diolch i Mr Malcolm Charlton am gynnal y sesiynau ac am hyfforddi'r plant mor effeithiol.

## Ymweliadau

Bwlch Nant Yr Arian
Fe aeth plant blwyddyn 2 ar ymweliad ddifyr iawn i Fwlch Nant yr Arian yn ddiweddar. Bu'r plant yno drwy'r dydd yn casglu a pharatoi coed er mwyn adeiladu cysgodfan yng nghanol y goedwig. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig ond blinedig iawn. Diolch i Leigh Denyer, Comisiwn Coedwigaeth am sicrhau diwrnod buddiol tu hwnt.

## Taith i'r Dre

Fe aeth blwyddyn 3 a 4 i Aberystwyth am y diwrnod fel rhan o'u gwaith thema ar yr ardal leol. Nid oedd y tywydd yn ffafriol iawn ond fe ddysgodd y plant amryw o bethau diddorol iawn yn ystod y dydd yn yr amgueddfa ac o gwmpas yr harbwr a'r traeth.

## Llangrannog

Fe aeth 35 o blant blwyddyn 5 a 6 i Langrannog am y penwythnos. Roedd yna lwyth o weithgareddau ar gael i gadw pawb yn brysur am oriau maith.

## Eisteddfod yr Urdd

Yn hytrach na' ymlacio a mwynhau gwyliau'r hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Perfformiodd pawb yn wych yn y rhagbrofion ond methu o drwch blewyn i gyrraedd y llwyfan wnaeth y dair eitem o'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan ddiolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams, Mrs Eleri Roberts, Mari Wyn Lewis, Bethan Jenkins ac Alan Phillips am yr hyfforddiant arbenigol dros yr wythnosau diwethaf.

## Noson Tirymynach

Ar y 15ed o Fai, trefnwyd noson adloniant yn neuadd yr ysgol gan bwyllgor apêl Tirymynach. Pwrpas y noson oedd cyrraedd targed ariannol yr ardal ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2010. Yn dilyn yr agoriad swyddogol gan Mr Dewi Hughes, cafwyd awr o adloniant gan blant yr ysgol a gorffenwyd y noson gyda barbaciw blasus.

## Cystadleuaeth Cnex

Cynhaliwyd cystadleuaeth cnex yn ddiweddar i gydfynd â phrosiect 'Bloodhound' sy'n ceisio torri record cyflymder dros dir. Bu grwpiau o blant o flwyddyn 6 yn dylunio ceir o cnex ac yna cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn gweld pa un oedd y gorau.

## Lluniau

Ar yr 3ydd o Fehefin fe ddaeth ffotograffydd o gwmni Tempest i'r ysgol. Tynnwyd lluniau y dosbarthiadau, y grwpiau amrywiol a berfformiodd yn ystod y flwyddyn a thimau chwaraeon yr ysgol. Mae'r lluniau ar gael i'w harchebu nawr.



Rhai o blant blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau penwythnos yn Llangrannog.



Plant blwyddyn 6 yn dilyn cwrs hyfforddiant beicio.



Rhai o blant blwyddyn 6 gyda'u dyluniadau cnex.



Bechgyn blwyddyn 5 yn mwynhau cwmni Dewi Pws.

# YSGOL PENRHYN-COCH



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 wrthi yn mwynhau ar y rafft a adeiladdwyd ganddynt



Y tim cwis llyfrau a ddaeth yn ail drwy'r Sir yn ddiweddar

## Glan-llyn

Ar ddydd Sul cyntaf mis Mai, teithodd criw o ddisgyblion blwyddyn 6 yr ysgol, ynghyd â disgyblion o Ysgolion Padarn Sant, Craig yr Wylfa a Chomins-coch i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn. Pwrpas yr ymweliad preswyl oedd i roi'r cyfle i ddisgyblion yr ysgolion i gymysgu a gwneud ffrindiau cyn trosglwyddo i'r Ysgolion Uwchradd ym mis Medi. Cafwyd cyfleoedd i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys dringo, taith gerdded, canwïo, adeiladu rafftiau ynghyd â taith gerdded. Cafwyd llawer o hwyl yn ystod yr ymweliad. Gwnaethpwyd nifer o ffrindiau newydd ar gyfer mis Medi.

## Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a enillodd wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar. Gwelwyd y gwaith yn cael ei arddangos yn adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Pyped Bl 3 a 4.
3ydd Sion Jones

Pypedau Bl 5 a 6
3ydd Hope Powell-Jennings a Catrin Evans

Gwau / Crosio Bl 2 ac iau
2il Zoe Evans

Print Lliw bl 2 ac iau
3ydd Sian Jenkins

## Criced

Bu tîm o gricedwyr o flwyddyn 4 yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament 50 / 50 yr Urdd yn ddiweddar. Chwaraewyd tair gêm i gyd. Llwyddwyd i guro Plas-crug a Myfenydd. Aeth y tîm drwodd i'r rownd derfynol yn erbyn Ysgol Rhydypennau. Er colli yma, maent wedi llwyddo i fynd drwodd i'r rownd rhanbarthol a gaiff ei chwarae ar gae yn Aberaeron. Llongyfarchiadau iddynt.

## Tysteb

Bydd Miss Helen Davies yn gorffen fel Dirprwy Bennaeth yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Fel ysgol rydym wrthi yn gwneud casgliad ar ei cyfer. Os hoffech gyfrannu tuag at y casgliad bydd Mrs Melanie Rees yn derbyn unrhyw roddion yn yr ysgol.

## Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i Lewis Morgans, Charles Thomas a George Martin a fu'n rhedeg yn rasys trawsgwlad Cymru ar gaeau Blaendolau yn ddiweddar.



Plant yr ysgol gyda cherddwyr Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.



Mathew Merry a Harri Horwood a fu'n cystadlu ym mhencampwriaethautrawsglad y Sir yn ddiweddar. Daeth Mathew yn gyntaf yn ei ras.



Disgyblion hŷn yr ysgol a fu'n recordio ar gyfer CD newydd a fydd yn cael ei ddosbarthu drwy ysgolion Cymru.



Tim criced blwyddyn 4 a enillodd drwodd i rownd derfynol y Sir.

yTincer-Mehefin09.indd 23 16/6/09 11:07:18



# TASG Y TINCER




Teleri Morgan


Ddaru chi fwynhau'r tywydd poeth a braf gafwyd yn ddiweddar? Gobeithio bod tipyn mwy ohono ar y ffordd dros y misoedd nesaf. Roedd Penrhyn-coch yn boethach na rhai llefydd yn Sbaen! Mae'n siwr eich bod yn rhy brysur yn mwynhau'r heulwen i liwio llun y dylluan a'r mwnci y mis diwethaf, chwarare teg. Roedd dy lun di, Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau yn arbennig o dda, ac rwyt ti'n haeddu'r wobr gyntaf y tro hwn. Da iawn ti,a diolch am dy lun. Hoffais wyneb pinc y mwnci!

Rwy'n siwr fod sawl un ohonoch wedi bod yn Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, naill ai am drip, neu i gystadlu. Gwyliais i dipyn o'r Eisteddfod ar y teledu, a mwynhau pob munud. Dyna drueni na chafodd neb y Gadair hardd a oedd wedi ei rhoi eleni gan y Llyfrgell Genedlaethol! Mae'n siwr eich bod yn gwybod bod yr Eisteddfod yng Nghheredigion y flwyddyn nesaf ger Aberaeron, reit ar stepen ein drws. Mae'n siwr fod sawl un ohonoch wrthi'n codi arian, er mwyn ei gwneud yn wyl i'w chofio. Rwy'n edrych ymlaen ati'n barod ac yn cyfri'r wythnosau.

Gan fod yr haf wedi cyrraedd, mae'n amser i anifeiliaid ein ffermydd hefyd gystadlu! Na, nid ar lwyfan mewn eisteddfod wrth gwrs, ond mewn sioeau amaethyddol. Sawl un ohonoch chi fuodd yn sioe Aberystwyth, yn gwylio'r defaid, y gwartheg a'r ieir yn cystadlu? Neu falle mae'r blodau, y gwaith llaw a'r crefftau yw eich hoff bethau chi, heb son am fwyta digon o hufen ia a gweld yr hen beiriannau fferm. Bydd nifer ohonoch chi hefyd yn mynd i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd mis nesaf, mae'n siwr. Roedd y sioe hon, fel Eisteddfod yr Urdd, arfer mynd i lefydd gwahanol bob blwyddyn. Mae'n siwr bod rhai o'ch neiniau a'ch teidiau yn cofio hi'n mynd ar daith — beth am eu holi? Dim ond ers 1963 mae'r Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac mae'r safle yn un hyfryd. Aeth ychydig dros 42,000 ar ymweliad â'r Sioe y flwyddyn gyntaf honno. A faint sy'n mynd erbyn hyn? 50,000? 100,000? Na, tipyn mwy! A wyddoch chi fod dros 200,00 yn ymweld a hi erbyn hyn bob blwyddyn? Mae digon o lefydd i guddio dan do os yw'r tywydd yn troi'n ddiflas, ond mae hefyd sawl man i eistedd allan a chael picnic os yw hi'n braf. Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r hen dractor, a'r cefyl a'r ebol, rhai o'r pethau y byddwch yn siwr o'u gweld mewn sioe dros yr haf.

Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE) erbyn 1 Medi.. Ta ta tan toc, a mwynhewch y gwyliau!





Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets
plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 320 | MEHEFIN 2009